Adroddiad Blynyddol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

2020 - 2021

CONWY YDYM NI

Yn darparu cefnogaeth leol hanfodol

Diogelu Cymru

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd

Conwy - a progressive County creating opportunity

Cynnwys

1. Cyflwyniad 3
2. Datganiad o Gyfrifoldeb 9
3. Crynodeb Ariannol 9
4. Gwerthusiad o'n Perfformiad yn ôl Canlyniadau'r Dinesydd 14

Canlyniad 1 – Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus 18

Canlyniad 2 – Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel 26

Canlyniad 3 - Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd 31

Canlyniad 4 - Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn egnïol 35

Canlyniad 5 – Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir sydd ag economi ffyniannus 40

Canlyniad 6 - Mae pobl yng Nghonwy'n gwerthfawrogi ac yn gofalu am yr amgylchedd 45

Canlyniad 7 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu 50

Canlyniad 8 – Mae pobl yng Nghonwy'n cyfrannu i'w cymuned. Maent yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais 55

Canlyniad 9 – Mae Cyngor Conwy yn wydn (Effeithlon) 59

6. Adroddiadau Rheoleiddwyr 63
7. Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus 64
8. Cymerwch Ran 69
9. Lle i gael rhagor o wybodaeth am eich Cyngor 70

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Rydym yn barod iawn i ddarparu'r ddogfen hon mewn print bras, sain, braille ac Iaith Arwyddion Prydain.

Cysylltwch â'r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol

1. Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Ebrill 2020 – Mawrth 2021. Bob blwyddyn rydym yn cynhyrchu'r adroddiad hwn er mwyn adolygu'r cynnydd a wnaethom, sut rydym wedi rheoli ein cyllideb, ein llwyddiannau a'r meysydd ar gyfer gwella. Rydym hefyd yn cyhoeddi fersiwn gryno er mwyn rhoi trosolwg fwy cyffredinol.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn anhygoel i bawb, ac yn sicr yn ddigynsail yn hanes Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ers ein ffurfio ym 1996. O drosi Venue Cymru yn ysbyty, i sefydlu gwasanaeth newydd i ddarparu danfoniadau i'r diamddiffyn, mae ein hymateb i Covid wedi bod yn drawsnewidiol. Yn y cyfamser rydym wedi cynnal y safonau uchaf ar draws ein holl wasanaethau, fel y cydnabyddir trwy achredu ac Archwilio Cymru.

Cyflawnwyd hyn i gyd trwy berthynas eithriadol o agos rhwng y Cabinet a'r Uwch Dîm a gwaith caled ein staff ac Aelodau Etholedig. Mae'r berthynas ymddiriedaeth uchel hon wedi galluogi cyfeiriad clir, gwneud penderfyniadau hyderus a gweithredu'n gyflym. Rydyn ni bob amser yn teimlo'n falch iawn o'r hyn rydyn ni'n ei gyflawni fel 'Tîm Conwy', ond erioed yn fwy nag eleni.

Arloesi

Rydym yn ymfalchïo mewn cyflawni ein Gweledigaeth i fod yn 'Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd'. Mae'r dull hwn wedi bod yn amlwg trwy'r datblygiadau arloesol a gyflwynwyd gennym yn yr ymateb i Covid. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Creu Tîm Arwain Covid trawsddisgyblaeth ar gyfer penderfyniadau cyflym a chefnogi staff
- Addasu ein theatr yn ysbyty, yna'n ganolfan frechu tyrfa
- Creu corffdy dros dro ar gyfer Gogledd Cymru
- Defnyddio ein maes parcio bysiau yn ganolfan brofi tyrfa
- Sefydlu Gwasanaeth Cefnogaeth Cymunedol <https://www.conwy.gov.uk/en/Spotlight/Whats-New/Pages/Self-isolating-and-need-help-%E2%80%93-find-out-what%27s-available-in-your-community.aspx> i ddanfon bwyd a phresgripsiynau i breswylwyr diamddiffyn
- Sefydlu gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu gyda phartneriaid Gogledd Cymru
- Addasu polisïau fel y gall staff weithio'n hyblyg er mwyn cael cydbwysedd rhwng ymrwymiadau'r cartref a'r gwaith yn ystod y cyfnodau clo
- Cyflwyno £1,876,065 o daliadau Prydau Ysgol Am Ddim ar gyfer 3,555 o Ddysgwyr
- Wedi datblygu pyrth a phrosesau ar-lein a chyflwyno grantiau pandemig gwerth £84 miliwn a grantiau bonws gofal cymdeithasol o £8.2 miliwn ar gyfer Llywodraeth Cymru
- Nodi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol ac ail-bwrpasu dyfeisiau i gael mynediad at ddysgu ar-lein.
- Datblygu dysgu ar-lein i gefnogi addysgu gartref - (79.4k wedi edrych)
- Creu ffyrdd newydd o ddarparu cefnogaeth ADY a Chynhwysiant Cymdeithasol
- Dod o hyd i ffyrdd tosturiol ac atyniadol i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu dadrithio
- Darparu ymyrraeth wedi'i thargedu ar gyfer disgyblion cynradd sy'n pontio i ysgol uwchradd i sicrhau pontio llyfn.
- Ail-frandio ac addasu Ffit Conwy gyda sesiynau ymarfer ac awgrymiadau ymarfer corff ar-lein
- Gweithio gyda chartrefi gofal i lywio ein penderfyniadau ar gyfer ymweliadau. Helpodd hyn i osgoi gorfodi cyfyngiadau cyfan gwbl
- Cydlynu 1,166 o frechiadau preswylwyr mewn 58 Cartref - 95% o drigolion
- Cydlynu a dosbarthu PPE i'r holl ddarparwyr gofal: (3.5 miliwn bocs o fenig, 1.6 miliwn bocs o fasgiau a 1.5 miliwn o roliau o ffedogau).

- Cychwyn pantomeim ar-lein a'i ffrydio i ysgolion a theuluoedd
- Datblygu gwasanaeth galw a chasglu o Lyfrgelloedd a sesiynau adrodd straeon ar-lein
- Cyflwyno system apwyntiadau Canolfan Ailgylchu
- Cynnal cystadleuaeth enwi lori graeanu a gosod systemau tracio arnynt
- Datblygu cynadleddau fforwm busnes hybrid
- Creu brand 'Conwy Ydym Ni' a rhaglen gyfathrebu dan arweiniad fideo i roi gwybodaeth i bobl.

O fewn ychydig wythnosau i'r pandemig fe wnaeth ein côr staff weithio mewn partneriaeth ag Opera Cenedlaethol Cymru a chydweithwyr y GIG i recordio 'Bridge Over Troubled Water', gan ddangos lluniau o'n theatr a gafodd ei throi yn ysbyty. Aeth yn feirol (3.5 miliwn yn ei gwylio), gan sbarduno cydweithrediadau ar-lein tebyg ledled y DU. Mae'r enghraifft fach hon yn dangos sut rydym yn mynd i'r afael â heriau gyda chreadigrwydd a chydweithio. Rydyn ni'n dysgu oddi wrth eraill ond yn datblygu atebion sy'n unigryw i ddiwylliant tosturiol Conwy sy'n canolbwyntio ar bobl.

Yr hyn sy'n gwneud Conwy yn unigryw yw'r ymagwedd 'Tîm Conwy' sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn gan Aelodau a Swyddogion. Rydym yn trysori perthnasoedd gwaith agos rhwng yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr; y Cabinet a'r Uwch Dîm; ein Haelodau Lleol a'n Swyddogion. Mae'r perthnasoedd hyn wedi'u hadeiladu ar ymrwymiad a rennir i gyflawni ar gyfer pobl Conwy. Y perthnasoedd hyn sydd wedi ein galluogi i ymateb i heriau'r flwyddyn ddiwethaf mewn ffordd mor hynod ac sy'n gwneud Conwy mor arbennig iawn.

Mae Covid wedi bod yn straen ond mae hefyd wedi bod yn gyfnod o ddysgu a thwf. Rydyn ni'n dwyn ar hyn i ail-ddylunio'r ffordd rydyn ni'n gweithio. Rydym wedi sefydlu Rhaglen Adnewyddu sy'n cynnwys:

Adnewyddu Gwasanaeth - prosesau i gau ac ailagor gwasanaethau rheng flaen yn ddiogel yn unol â lefelau rhybudd.

Doethwaith 2020 - gan ganolbwyntio ar drefniadau swyddfa newydd yn seiliedig ar brofiadau gweithio o gartref. Gan ei bod yn ardal wledig mae gan hyn y potensial i agor cyfleoedd i gymunedau a chreu demograffig staff a Chynghorwyr mwy amrywiol. Gallai hefyd gyflymu ein huchelgais i fod yn Carbon Niwtral erbyn 2030.

Ein Perfformiad

Mae Conwy wedi cael ymateb hynod gynhwysfawr i Covid, gan ddarparu cyfleusterau nad yw llawer o Gynghorau eraill wedi bod yn gysylltiedig â nhw. Archwiliodd Archwilio Cymru ein hymateb Covid a rhoi adborth cadarnhaol iawn.

Mae ein perfformiad wedi cael ei lywio gan weledigaeth glir gan y Cabinet a phenderfyniadau hyderus yr Uwch Dîm Arwain. Yn fuan fe wnaethom sefydlu sianel gyfathrebu reolaidd gyda staff i'w galluogi i weithio'n ddiogel ac addasu gwasanaethau cyhoeddus ar fyr rybudd. Fe nodom y gwasanaethau hynny a oedd yn debygol o fod o dan y pwysau mwyaf ac adleoli staff i gynorthwyo.

Defnyddiom dechnoleg i liniaru risg, gan awtomeiddio swyddogaethau graeanu mewn wagenni fel y gallent gael eu gyrru gan staff anarbenigol. Ni oedd yr Awdurdod cyntaf yng Ngogledd Cymru i gyflwyno cyfarfodydd pwyllgor rhithiol gyda chyfieithu ar yr un pryd i'r Gymraeg.

Er gwaethaf y pandemig, rydym nid yn unig wedi cyflawni ein hamcanion corfforaethol ond mewn sawl achos wedi rhagori arnynt, gan sicrhau'r safonau achredu uchaf ar draws amrywiaeth o wasanaethau. Mae crynodeb isod o'n llwyddiannau allweddol:

Moderneiddio a Gwasanaethau Cefnogi

a) Wedi asesu risg yr holl wasanaethau, adeiladau ac ysgolion i sicrhau bod yr holl reolaethau diogelwch Covid yn cael eu rhoi mewn grym
b) Wedi adolygu ac ailwampio hygyrchedd ein gwefan
c) Wedi darparu cefnogaeth AD ar gyfer ffyrlo, polisïau newydd ac adleoli staff
d) Wedi gorffen recriwtio ar gyfer tair swydd uwch a chefnogi ailstrwythuro gwasanaethau.
e) Wedi lansio Cynllun dyletswydd cydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol newydd
f) Wedi hyfforddi staff i gefnogi gweithio o bell ac addasiadau gweithio eraill
g) Wedi cynnal ein safon iechyd corfforaethol safon arian.
h) Wedi gweinyddu etholiad yn llwyddiannus gyda chyfyngiadau covid
i) Wedi cyflwyno Microsoft 365, Zoom a Teams i staff ac Aelodau
j) Wedi cyflawni ardystiad hanfodion seiber a mwy
k) Wedi darparu caledwedd a chymorth technegol i staff a disgyblion weithio gartref yn ystod cyfnodau clo
l) Wedi parhau i ehangu gwasanaethau digidol integredig ar-lein gan gynnwys gwefan hamdden newydd, ailgylchu gwastraff cartref, ceisiadau am fynediad i swyddfeydd derbyniadau i ysgolion, gan alluogi ein cymunedau a'n gweithlu i gael mynediad at wasanaethau ar-lein.
m) Wedi danfon 95 ipad i gartrefi Gofal i alluogi teuluoedd i gysylltu ag anwyliaid.
n) Wedi archwilio ymateb Conwy i Covid a'r gwersi i'w dysgu.
o) Wedi cefnogi caffael PPE ar gyfer y sector annibynnol a sefydlu prosesau tendro ar-lein
p) Wedi cyflwyno swyddogaeth gwe-sgwrsio ar gyfer treth y cyngor
q) Wedi cyflawni rhagoriaeth Cwsmeriaid ar gyfer y Timau Refeniw a Budd-daliadau a'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau ar gyfer yr 11eg flwyddyn yn olynol.

Yr Amgylchedd

a) Wedi sefydlu'r rhaglen Her Hinsawdd i gyrraedd sero carbon net erbyn 2030 a chymeradwyo'r Cynllun Datgarboneiddio.
b) Wedi cyflawni ein canlyniad ailgylchu uchaf erioed o 73% ac 84% o wastraff wedi'i ailgylchu o'n Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref a'n perfformiad gorau erioed.
c) Wedi lleihau ein hallyriadau carbon gan 44%
d) Wedi cymeradwyo cynllun dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau.
e) Wedi lansio gwasanaeth casglu gwastraff gardd newydd
f) Wedi ymgymryd ag amddiffyn yr arfordir yn Hen Golwyn a sicrhau £7.5m mewn cyllid amddiffyn yr arfordir
g) Am y chweched flwyddyn yn olynol, rydym ni wedi cyflawni achrediad Lefel 5 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd.
h) Wedi cyflawni Safon Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer ar gyfer y Gwasanaethau Amgylcheddol
i) Wedi ennill Gwobr Aur CAWF (Gwobr Lles Anifeiliaid Gymunedol) gan RSPCA Cymru i gydnabod ein gwaith gyda chŵn crwydr.
j) Wedi cymryd rhan mewn prosiect peilot arloesol ar y cyd â Llywodraeth Cymru, WRAP a Polytag
k) Wedi sefydlu rhaglen newid yn yr hinsawdd a Chynllun Datgarboneiddio i gyflawni sero carbon net erbyn 2030.
l) Wedi'i ddewis i fod yn un o ddim ond dwy ardal awdurdod lleol i lunio cynllun ynni ardal leol fel rhan o gynllun peilot gan Lywodraeth Cymru.
m) Mae Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau wedi ennill safon ryngwladol newydd ISO 45001:2018 ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch. Ni yw'r unig awdurdod yng Nghymru i gyflawni'r safon hwn, ac eithrio Ceredigion sydd ag ardystiad ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd yn unig.

n) Gwobrau Baner Werdd wedi'u cyflawni ar gyfer 12 parc a man gwyrdd a thargedau wedi'u cyrraedd ar gyfer cael gwared â thipio anghyfreithlon yn brydlon, (er gwaethaf cynnydd o 68% mewn digwyddiadau). Cyrhaeddwyd y targedau ar gyfer prydlondeb atgyweiriadau lampau stryd; a glendid strydoedd.
r) Wedi derbyn adroddiad arolygu cadarnhaol ar reoli mynwentydd ac amlosgfeydd.

Lles cymdeithasol

a) Wedi derbyn adborth cadarnhaol gan Arolygiaeth Gofal Cymru am ein gwaith Gofal Cymdeithasol ac oddi wrth ESTYN ynghylch cefnogaeth ysgolion yn ystod y pandemig.
b) Datblygu gwasanaeth gwella addysg ac ail-frandio Canolbwynt Cyflogaeth Conwy
c) Symud ymlaen i gam nesaf rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gyda 5 ysgol newydd bosibl
d) Wedi cyrraedd rownd derfynol gyda chanmoliaeth uchel yng Ngwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru.
e) Wedi addasu a pharhau gyda'n cyfrifoldebau diogelu drwy gydol y pandemig.
f) Wedi datblygu dulliau arloesol ar gyfer tai fforddiadwy a chydweithio i ddarparu cabanau ar gyfer pobl sy'n cysgu allan
g) Wedi parhau i ddarparu ymateb cyflym ar gyfer pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty
h) Wedi datblygu cefnogaeth ar-lein i bobl hŷn i hybu lles
i) Wedi dod y prosiect Tai yn Gyntaf cyntaf i gael achrediad gan Lywodraeth Cymru.
j) Wedi cyflawni achrediad safon Aur NSI ar gyfer ein Canolfan Derbyn Larymau Conwy.
k) Wedi cyflawni 347 o addasiadau grant cyfleusterau anabl yn llwyddiannus
l) Mae 118 o unedau tai fforddiadwy wedi'u dosbarthu a 27 o anheddau gwag wedi'u hail-ddefnyddio, a 12 annedd wedi'u creu o eiddo gwag.
m) Wedi darparu dosbarthiadau ffitrwydd rhithiol sydd wedi gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch i ardaloedd gwledig.
n) Wedi cyflwyno System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)
o) Wedi ailwampio'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl
p) Wedi sefydlu panel dysgwyr agored i niwed gofal cymdeithasol ac addysg
q) Wedi creu dewisiadau amgen i wasanaethau cymorth mewn adeiladau pan nad oedd unigolion yn gallu cael mynediad at ofal dydd a gofal seibiant yn ystod y cyfnod clo
r) Wedi addasu Canolfannau Teulu i ddiwallu anghenion lleol trwy Zoom, gweminarau a theithiau cerdded cymdeithasol a grwpiau awyr agored mewn grwpiau bach.
s) Wedi sefydlu Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol mewn cydweithrediad â Heddlu Gogledd Cymru
t) Wedi cwblhau'r Prosiect Maelgwn sef adeiladu 27 eiddo ar hen safle'r ysgol. Mae tenantiaid wedi symud i mewn i 6 o'r 10 fflat i bobl anabl.

Diwylliant

a) Wedi cwblhau ad-drefnu'r gwasanaeth i greu'r Gwasanaeth Economi a Diwylliant
b) Wedi datblygu Strategaeth Ddiwylliannol gan roi diwylliant wrth wraidd adfywio a chynnal ymgynghoriad ar safonau llyfrgell
c) Wedi Ennill Tiwtor Cymraeg y Flwyddyn a 3ydd safle fel Cyflogwr y Flwyddyn - Gwobrau Cenedlaethol Cymraeg Gwaith
d) Wedi ymgysylltu'n ddigidol â dros 265,000 o bobl yng ngweithgareddau'r celfyddydau creadigol, treftadaeth, amgueddfeydd a llyfrgelloedd.
e) Agorwyd yr archif yng Nghanolfan Diwylliant Conwy
f) Wedi ymgynghori ar strategaeth lyfrgelloedd newydd, wedi dechrau gwaith i symud Llyfrgell Llanrwst i Glasdir ac ar fin ymgynghori ar Strategaeth Diwylliant Creu Conwy newydd

g) Arddangos portreadau mewn llochesi Promenâd mewn cydweithrediad ag Oriel Colwyn a Gŵyl Ffotograffiaeth Northern Eye

Economaidd

a) Wedi creu gwasanaeth Economi a Diwylliant newydd i wneud diwylliant yn rym ar gyfer ein huchelgeisiau economaidd a lles. Mae'r Gwasanaeth Economi a Diwylliant newydd, yn cyflogi 600 o staff ag arbenigedd ar draws theatrau, archifau, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, y celfyddydau, digwyddiadau, asedau, cyfathrebu a marchnata, datblygu economaidd a seilwaith.
b) Wedi comisiynu parth menter newydd sy'n cynnig unedau ar gyfer cychwyn neu ehangu busnes yn sgil Covid
c) Wedi cynyddu ein Gwasanaeth Cymorth Busnes, ateb dros 10,000 o alwadau a phrosesu 3045 o geisiadau grant.
d) Wedi ail-weithio ar ein Strategaeth Twf Economaidd i gefnogi adferiad yn y tymor byr, tymor canolig a hir
e) Wedi adeiladu Pier blaendor ym Mae Colwyn i gwblhau ein hailddatblygiad o'r glannau gwerth miliynau o bunnoedd.
f) Wedi manteisio ar gau canolfannau hamdden i gwblhau £750k o waith cynnal a chadw; datblygu cae 3G; a buddsoddi mewn gwefan ac ap masnachol
g) Wedi adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd i sicrhau bod effeithiau'r pandemig a'r adferiad yn cael eu hymgorffori mewn polisïau.
h) Wedi lansio cynllun llysgenhadon twristiaeth
i) Wedi llwyddo i gomisiynu Ardal Fenter Tre Morfa ar y 4ydd o Ragfyr 2020.
j) Wedi cynnal gweminarau busnes ar-lein i gefnogi busnesau lleol
k) Wedi cyflwyno gwasanaeth cludiant cyhoeddus yn ddibynnol ar alw yn Nyffryn Conwy.

Meysydd y byddwn yn parhau i ganolbwyntio arnynt

Fel rhan o'n trefniadau llywodraethu, rydym yn adolygu ein perfformiad yn rheolaidd ac yn gofyn i ni'n hunain pa wahaniaeth yr ydym yn ei wneud a ble mae angen i ni ganolbwyntio gwelliant. Fel rhan o'r broses hon rydym yn adolygu ein risgiau corfforaethol ac yn sganio'r gorwel am bwysau posibl y mae angen i ni gynllunio ar eu cyfer. Isod mae meysydd y byddwn yn canolbwyntio sylw arnynt yn y flwyddyn ariannol nesaf.

a) Cefnogi pobl sydd mewn perygl o ddod yn Ddigartref. Nid yw Datrysiadau Tai wedi cael unrhyw bobl sy'n cysgu allan yng Nghonwy. Mae hwn yn welliant sylweddol i iechyd a lles trigolion Conwy sy'n profi hyn. Fodd bynnag, oherwydd y Pandemig, mae gwasanaeth Datrysiadau Tai Conwy wedi gweld cynnydd o bron i 300% yn y ceisiadau am gymorth. Cyn y pandemig ar ddiwedd Mawrth 2020 roedd 39 o aelwydydd mewn llety brys. Bellach mae gennym dros 500 o bobl mewn llety dros dro. Mae angen i ni ddiwallu'r angen am dai yn y Sir ac ail-gartrefu nifer y bobl mewn llety dros dro yn barhaol.

b) Mae recriwtio i rai grwpiau proffesiynol wedi dod yn heriol a byddwn yn parhau i gefnogi datblygiad staff i 'dyfu ein rhai ein hunain' i gwrdd â'r diffyg recriwtio.

c) Cynnal gwytnwch a lles staff - mae effaith Covid wedi cael effaith andwyol ar yr holl wasanaethau cyhoeddus. Mae darparu gofynion ychwanegol / goblygiadau gwasanaeth Covid ar yr un pryd â pharhau i ddarparu "busnes fel arfer" wedi rhoi gwasanaethau dan bwysau sylweddol a byddwn yn

parhau i gefnogi gwytnwch staff i ddelio â'r llwyth gwaith ychwanegol sydd wedi bod yn ganlyniad i reolaethau Covid.

d) Cefnogi pobl i adennill eu ffitrwydd a'u mynediad at chwaraeon ar ôl y cyfnod clo - gan gynnwys gwersi nofio dwys i blant ysgol, ailadeiladu aelodaeth Ffit Conwy, a hyfforddi staff ar gymorth cyntaf iechyd meddwl i gynorthwyo gyda'n rhaglen adnewyddu ar ôl pandemig.

e) Yn ystod y pandemig mae'n amlwg nad yw llawer o ddysgwyr wedi symud ymlaen gymaint ag y gallent o ran eu cynnydd mewn dysgu, gyda rhai wedi cael eu heffeithio'n fwy difrifol nag eraill. Dyrannwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i alluogi buddsoddi mewn ysgolion i'w galluogi i recriwtio a defnyddio gallu dynol ychwanegol i gefnogi dysgwyr i fynd i'r afael â'u hanghenion yn dilyn argyfwng cychwynnol COVID-19 a chyfnod cau ysgolion.

f) Mae trafodaethau ar amddiffyn yr arfordir wedi datblygu ond mae angen eu dwysáu er mwyn symud datblygiadau ymlaen gyda Network Rail a sicrhau'r cyllid mwyaf posibl gan Lywodraeth Cymru. Mae angen i'r gwaith hefyd barhau i fynd i'r afael â'r clefyd coed ynn a gweithio gyda pherchnogion tir gyda choed ynn ar eu tir.

g) Mae newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth yr un mor fawr o her os nad yn fwy na Covid ac mae angen ymrwymiad byd-eang i newid. Trwy ein Rhaglen Her Hinsawdd byddwn yn gweithio i leihau ein hôl troed carbon ein hunain ac amddiffyn a hyrwyddo bioamrywiaeth yn y sir.

h) Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru monitro'r Lefelau Covid a gweithredu yn unol â hynny i gefnogi ein cymuned i fyw'n ddiogel gyda'r Feirws, monitro effaith bosibl Covid hir a ffliw'r gaeaf, a dychwelyd i fusnes fel arfer cyn belled ag y bo modd, wrth gadw'r newidiadau cadarnhaol a wnaed mewn ymateb i'r cyfnod clo. Rydym am symud ymlaen tuag at ffyrdd newydd, mwy cynhyrchiol o weithio sy'n creu cyfle a chanlyniadau gwell i bawb ac i adeiladu ar y ffyrdd buddiol o weithio a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod clo. Rydyn ni am sicrhau bod y rhain yn parhau yn y tymor hwy ac i geisio gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol i gefnogi lleihau carbon, cefnogi lles staff, a darparu gwasanaeth rhagorol i'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi.

i) Ymgysylltu, gwerthuso ac ail-ysgrifennu ein Cynllun corfforaethol 5 mlynedd i adlewyrchu ein dull tymor hir o adnewyddu, gan gynnwys adeiladu ar sgîl-effeithiau cadarnhaol y pandemig megis lleihau teithio, mwy o bresenoldeb digidol, mwy o deithio llesol, a mwy o ddiddordeb mewn 'gwyliau gartref'.

2. Datganiad o Gyfrifoldeb

Rydym yn adrodd ar berfformiad mewn 2 gam.

Cam 1: Amcanion Y Cynllun Gwella

Yn unol â chanllawiau Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (a gafodd ei disodli ar 1 Ebrill 2021 gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021), a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; bob blwyddyn, mae'n rhaid adolygu ein hamcanion gwella a nodi cynllun clir ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Mae gennym gynllun strategol pum mlynedd a elwir yn Gynllun Corfforaethol, sy'n manylu ar ein hamcanion lles. Rydym yn adolygu'r cynllun bob blwyddyn er mwyn sicrhau fod yr amcanion lles yn dal i fod yn berthnasol ac yn fforddiadwy. Cafodd Cynllun Corfforaethol 2017 – 2022 ei gymeradwyo Hydref 2017 a chafodd ei adolygu ddiwethaf ym mis Medi 2020 er mwyn myfyrio ar y newidiadau yn y blaenoriaethau yn sgil Covid. Mae'r adolygiad hwn yn cwmpasu'r 18 mis sy'n weddill o'r cynllun (hyd at 31 Mawrth 2022). Rydym bellach yn y broses o ddatblygu cynllun strategol 5 mlynedd newydd ar gyfer 2022 - 2027.

Cam 2: Asesu Perfformiad
Bob blwyddyn rydym yn hunanasesu ein trefniadau a'n perfformiad llywodraethu corfforaethol i weld a ydym yn gwneud gwahaniaeth ac yn diwallu'r nodau a osodom. Rydym yn cyhoeddi'r hunanwerthusiad mewn Adroddiad Blynyddol. Mae Adroddiad Blynyddol eleni'n canolbwyntio ar berfformiad yr amcanion gwella a osodwyd ar gyfer 2020/2021. Fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 22ain Hydref 2021 ac fe'i cyhoeddwyd ar ein gwefan yn syth ar ôl hynny.

Llywodraethu
Mae'n bwysig fod trefniadau llywodraethu corfforaethol (y modd rydym yn cyfarwyddo ac yn rheoli ein busnes ac yn ymwneud â chymunedau) yn cefnogi'r gwaith o reoli risgiau a darparu gwasanaethau yn effeithiol. Mae a wnelo llywodraethu corfforaethol â'r ffordd y bydd aelodau etholedig a swyddogion yn ymdrin â materion yr Awdurdod, ac â sut y byddwn yn ymgysylltu â'r gymuned, rhanddeiliaid a phartneriaid.

Yn unol â'r Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (2016) diwygiedig, ac a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, bob blwyddyn byddwn yn ysgrifennu Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac yn ei gyhoeddi ar y wefan er mwyn adrodd am ein trefniadau a meysydd gwella. Mae'n rhaid iddo gael ei lofnodi gan y Prif Weithredwr a'r Arweinydd a byddwn yn ei gyflwyno i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor rhan o'r Datganiad Cyfrifon. Eleni cafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tacwedd 2021.

3. Crynodeb Ariannol

Fel corff gydag atebolrwydd cyhoeddus, rhaid i ni ddarparu gwerth am arian yn y gwasanaethau rydym yn eu darparu i'r gymuned. Conwy gododd y degfed Treth y Cyngor Band D isaf yng Nghymru yn 2020/2021. Mae cyfran fawr o'r cyllid i Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn dod gan Lywodraeth Cymru drwy grant cynnal refeniw (RSG). Ar gyfer 2020/2021 cynyddodd y Cyllid Allanol Cyfansymiol (AEF), (sy'n cynnwys yr RSG a chyfran o'r Trethi Annomestig Cenedlaethol a gesglir), o 3.4% ar sail tebyg at ei debyg gyda'r sefyllfa ar gyfer 2019/2020. Hwn oedd yr ail Setliad gwaethaf yng Nghymru.

Mewn termau real, roedd y setliad yn cynnig cyllid ychwanegol digonol ar gyfer y pwysau sy'n wynebu ysgolion, ond dim ar gyfer y pwysau sy'n wynebu'r gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill. Byddai unrhyw ddiffyg mewn adnoddau ar gyfer 2020/2021 yn cael ei gyflawni drwy doriadau cyllideb sylweddol i bob gwasanaeth, ynghyd â chynnydd yn Nhreth y Cyngor. Yr amcangyfrif o'r diffyg oedd £11.010m a chyflwynwyd nifer o fesurau i gwrdd â'r diffyg. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Roedd angen i bob adran wneud toriadau i'w cyllideb. Roedd angen i ysgolion nodi 2.18% ac roedd yn ofynnol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol nodi 5%. Roedd gan bob gwasanaeth arall dargedau yn amrywio rhwng 6% a 10%. Roedd yn ofynnol i wasanaethau ddarparu manylon y mentrau a gynigiwyd er mwyn cwrdd â thargedau arbedion.
- Cynyddwyd treth y cyngor o 4.95%.

Ceir rhagor o wybodaeth fanylach ar ein cyllidebau ar wefan Conwy. Mae'r Cyngor yn cymeradwyo cyllidebau ar ddechrau'r flwyddyn ym mis Chwefror neu fis Mawrth ac adroddir ar y sefyllfa derfynol yn y Datganiad Cyfrifon a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi neu Hydref.

Ers 2013 rydym wedi cyflawni arbedion gwerth £65m. Yr arbedion arfaethedig ar gyfer gwasanaethau yn 2020/2021 yn unig oedd £8.303m. Rydym bellach mewn sefyllfa lle mae'r dewisiadau sy'n weddill i ni yn eithaf anodd gan eu bod yn golygu gostyngiad pellach mewn niferoedd staff a thorri ar ddarpariaeth gwasanaeth. Rydym yn ceisio osgoi penderfyniadau anodd o'r fath lle gallwn ni, drwy weithio ar y cyd, cynhyrchu incwm a meddwl yn fwy ochrol am y ffordd rydym yn comisiynu gwasanaethau. Rydym hefyd yn edrych ar y tymor hirach, i adolygu ble y bydd y galw yn y dyfodol, fel y gallwn addasu i gwrdd ag anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Rydym wedi cynllunio ac yn cyflawni arbedion pellach o £2.2 miliwn ynghyd â chynnydd yn Nhreth y Cyngor i fynd i'r afael â diffyg o £4.2m yn 2021/22.

Yn fuan ar ôl i'r gyllideb gael ei chymeradwyo, cychwynnodd cyfnodau clo pandemig y Coronafeirws, gan effeithio ar fywydau a bywoliaeth pobl, yr economi a gwasanaethau cyhoeddus. Roedd yn amlwg o bwynt cynnar yn y flwyddyn ariannol y byddai cyllid llywodraeth leol yn cael ei effeithio'n sylweddol am gyfnod anhysbys i'r fath raddau fel y byddai angen cyllid ychwanegol ar lywodraeth leol trwy gymorth grant ychwanegol gan y Llywodraeth.

Roedd pryderon cynnar yn awgrymu ei bod yn ymddangos bod yr effeithiau ariannol mawr yn debygol o godi trwy wariant ychwanegol yn gysylltiedig â'r pandemig, colli incwm am wasanaethau, lefelau is o Dreth y Cyngor yn cael eu casglu, peidio â chyflawni gostyngiadau cyllidebol a gynlluniwyd yn flaenorol, a mwy o hawliau i ostyngiad Treth y Cyngor. Mae'n deg dweud bod Conwy wedi profi'r holl bwysau hyn yn ystod 2020/2021.

Wrth i ddifrifoldeb, effaith a llinell amser y pandemig ddod yn gliriach cyhoeddodd Llywodraeth y DU olyniaeth o grantiau gyda'r nod o gefnogi'r sectorau yr effeithiwyd arnynt gan gynnwys llywodraeth leol. Llifodd cyllid canlyniadol i Lywodraeth Cymru a dyrannwyd hwn i Lywodraeth Leol yng Nghymru mewn nifer o gyfrannau i amrywiol ddibenion. Prif elfen cymorth grant oedd i 'galedi' i ad-dalu gwariant cymwys ac incwm a gollwyd yn unol â chanllawiau trwy gydol 2020/2021.

Derbyniodd Conwy grantiau gwerth £16.36m i dalu am wariant ychwanegol a gafwyd oherwydd Covid ac incwm a gollwyd oherwydd y gofyniad i gau nifer o wasanaethau rheng flaen sy'n cynhyrchu incwm. Fe wnaeth Conwy hefyd roi nifer o staff ar ffyrlo nad oedd yn gallu gweithio oherwydd cau eu maes gwasanaeth a gwnaed hawliad o £2.09m i Gynllun Cadw Swyddi'r Llywodraeth i gyfrannu tuag at gost eu cyflogau yn ystod y cyfnod hwn.

Gweithredodd Conwy fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru a dosbarthodd nifer o grantiau busnes i fusnesau lleol i'w cefnogi trwy'r amrywiol gyfnodau clo a chyfyngiadau busnes a oedd ar waith yn ystod 2020/2021. Gwir ffigur y grantiau busnes a dalwyd allan yn ystod y flwyddyn oedd £78.62m fodd bynnag oherwydd yr hawliadau parhaus, cronnodd Conwy £1.8m yn 2020/21 i dalu'r amcangyfrif o daliadau a fyddai'n cael eu talu yn 2021/22.

Yn ogystal â'r grantiau Busnes, cefnogodd Llywodraeth Cymru fusnesau lleol trwy ddarparu £20m mewn rhyddhad ardrethi busnes fel bod busnesau yr oedd y pandemig yn effeithio arnynt yn cael gostyngiad yn eu cyfraddau busnes.

Cynorthwyodd Conwy Lywodraeth Cymru hefyd gyda nifer o gynlluniau eraill i gefnogi'r gymuned. Roedd y rhain yn cynnwys £630k mewn taliadau llawrydd, £136k mewn taliadau hunan-ynysu, £54k mewn tâl salwch gofalwyr, profion cartrefi gofal - £171k, cefnogaeth i leoliadau gofal plant - £174k, taliadau prydau ysgol am ddim - £2.1m.

Talodd Conwy hefyd ar ran Llywodraeth Cymru y taliad bonws o £500 i ofalwyr yng Nghonwy yn 2020/21 a oedd yn gyfanswm o £1.83m. Mae Conwy hefyd wedi cael y dasg o dalu'r bonws ychwanegol o £750 i ofalwyr y gwnaed y taliadau cyntaf amdanynt ym mis Ebrill 2021, i dalu cost y taliadau hyn a gronnodd Conwy £5.4m yng nghyfrifon 20/21.

O ran y gyllideb ar gyfer 2020/2021, cafodd hyn ei fonitro a'i reoli yn ystod y flwyddyn a chyflwynwyd adroddiadau a chyflwyniadau i'r ddemocratiaeth i dynnu sylw'r Aelodau at asesiad lefel uchel cyffredinol o'n sefyllfa ariannol debygol. Adlewyrchwyd lefel yr ansicrwydd yn y sefyllfa ariannol a adroddwyd arni'n rheolaidd. Newidiodd y diffyg cyllidebol a ragwelwyd yn sylweddol wrth i lefel yr ansicrwydd leihau, gan arwain at sefyllfa diwedd blwyddyn a gynhyrchodd gyllideb gytbwys gyffredinol a'n balansau a'n cronfeydd wrth gefn yn cynyddu.

Mae'r diagramau'n dangos ble daeth yr arian (incwm) a sut y gwariom ein cyllideb yn 2020/21.





Beth y caiff eich arian ei wario ar bob blwyddyn 2020/21

Mae'r enghraifft yma'n seiliedig ar **dreth y cyngor eiddo Band D** o **£1,343.86** y flwyddyn.

Addysg ac Ysgolion

£462.07

Gofal Cymdeithasol



£392.44

Costau Llog ac Ad-dalu Asedau

£89.16

Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor a Rhyddhad Ardrethi Busnes

£64.05

Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol

£37.66

Taliadau i'r Gwasanaeth Tân a'r Parc Cenedlaethol

£38.16

Gwagio Biniau ac Ailgylchu

£33.26

Priffyrdd ac Isadeiledd

£30.21

Cludiant Ysgol

£30.27

Gwarchod y Cyhoedd, Trwyddedu ac Iechyd yr Amgylchedd

£18.19

Moderneiddio a Ffioedd Corfforaethol

£24.52

Twristiaeth, Theatrau, Cynadleddau a Digwyddiadau

£14.23

Rheoli Adeiladau'r Cyngor

£12.77

Democratiaeth

£10.70

Gwastraf i safle ynni/gwarediad

£11.55

Llyfrgelloedd

£12.87

Glanhau Strydoedd

£11.13

Pyllau Nofio a Chanolfannau Hamdden

£11.09

Atal Digartrefedd

£10.25

Cefnogi Busnesau a'r Gymuned

£7.78

Parciau a Gerddi

£6.86

Tîm Refeniw a Budd-daliadau ac Asesiad Ariannol

£6.50

Gwasanaeth Ieuenctid



£5.26

Rheoli Cefn Gwlad



£2.88

4. Gwerthusiad o'n Perfformiad yn ôl Canlyniadau'r Dinesydd

Mae'r wybodaeth isod yn rhoi manylion y cynnydd a wnaed er mwyn cyflwyno blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (ein hamcanion lles) yn ystod blwyddyn ariannol 2020/2021. Nid ydym yn gallu cymharu ein perfformiad â'r 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru ar gyfer 2020-21 oherwydd nid yw'r holl setiau data wedi'u casglu'n genedlaethol, ac ni fydd y rhai a gasglwyd yn cael eu rhannu at ddibenion cymharu gan fod awdurdodau lleol wedi gweithredu'n wahanol iawn dros y 18 mis diwethaf.

Ar gyfer y mesurau lle nad oes data ar gael ar gyfer 2020/21, dynodir hyn gyda Amh..

Mae'r allweddau a ganlyn yn diffinio statws coch / oren/ gwyrdd (COG) pob cam gweithredu a mesur.

Trosolwg o Gamau Gweithredu a

Allwedd COG y Camau Gweithredu:

Cam gweithredu ddim yn symud ymlaen / meysydd pryder wedi'u codi	Coch
Cam gweithredu yn symud ymlaen a dim pryderon wedi'u codi	Oren
Cam gweithredu wedi'i gyflawni	Gwyrdd

Allwedd COG y Mesuryddion Perfformiad:

O'i gymharu â'r targed a osodwyd:

Heb gyflawni'r targed ac yn is na'r lefel sy'n cael ei goddef	Coch
Oddi mewn i'r goddefiant er mwyn gweithio tuag at gyflawni'r targed	Oren
Targed wedi'i gyrraedd ar gyfer y mesur	Gwyrdd
Amherthnasol (dim targed wedi'i osod)	Amh.

Mesurau Perfformiad y Cynllun Corfforaethol

Canlyniad 1 – Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus			
A1.1	Oren	M1.1g	Amh.
A1.2	Gwyrdd	M1.1h	Amh.
A1.3	Gwyrdd	M1.3a	Amh.
A1.4	Gwyrdd	M1.3b	Amh.
A1.5	Gwyrdd	M1.3c	Amh.
		M1.4a	Amh.
		M1.4b	Coch
		M1.4c	Amh.
		M1.4d	Amh.
		M1.4e	Amh.
		M1.4f	Amh.
		M1.4g	Amh.

Canlyniad 2 – Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel			
A1.1	Oren	M2.1	Gwyrdd
A1.2	Gwyrdd	M2.2	Gwyrdd
A1.3	Gwyrdd	M2.4a	Coch
A1.4	Gwyrdd	M2.4b	Coch
A1.5	Gwyrdd	M2.4c	Oren
		M2.4d	Oren
		M2.4e	Coch
		M2.5	Gwyrdd
		M2.6	Amh.

Canlyniad 3 - Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd			
A3.1	Gwyrdd	M3.1a (i)	Amh.
A3.2	Gwyrdd	M3.1a (ii)	Amh.
A3.3	Oren	M3.1b	Gwyrdd
A3.4	Gwyrdd	M3.1c	Amh.
		M3.1d	Amh.
		M3.2a	Amh.
		M3.2b	Amh.
		M3.2c	Amh.
		M3.2d	Amh.
		M3.3a	Amh.
		M3.3b	Amh.
		M3.3c	Amh.
		M3.4a	Amh.
		M3.4b	Amh.
		M3.4d	Amh.

Canlyniad 4 – Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn egnïol			
A4.1	Gwyrdd	M4.1a	Amber
A4.2	Gwyrdd	M4.1b	Amber
A4.3	Gwyrdd	M4.1c	Amh.
A4.4	Gwyrdd	M4.2	Amh.
A4.5	Gwyrdd	M4.3	Amh.

Canlyniad 5 – Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir gydag economi ffyniannus			
A5.1	Gwyrdd	M5.1	Amh.
A5.1a	Oren	M5.1ai	Amh.
A5.2	Gwyrdd	M5.1aii	Amh.
A5.3	Gwyrdd	M5.2a	Amh.
A5.4	Oren	M5.2b	Amh.
		M5.3	Amh.
A5.5	Oren	M5.3a	Amh.
A5.6	Oren	M5.3b	Amh.
		M5.3c	Amh.
A5.7	Gwyrdd	M5.4a	Amh.
		M5.4b	Amh.
		M5.5a	Amh.
		M5.5c	Amh.
		M5.5d	Amh.

Canlyniad 6 - Mae pobl yng Nghonwy'n gwerthfawrogi ac yn gofalu am yr amgylchedd			
A5.1	Gwyrdd	M5.1	Amh.
A5.1a	Oren	M5.1ai	Amh.
A5.2	Gwyrdd	M5.1aii	Amh.
A5.3	Gwyrdd	M5.2a	Amh.
A5.4	Oren	M5.2b	Amh.
		M5.3	Amh.
A5.5	Oren	M5.3a	Amh.
A5.6	Oren	M5.3b	Amh.
		M5.3c	Amh.
A5.7	Gwyrdd	M5.4a	Amh.
		M5.4b	Amh.
		M5.5a	Amh.
		M5.5c	Amh.
		M5.5d	Amh.

Canlyniad 7 – Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu			
A7.1	Gwyrdd	M7.1a	Amh.
A7.2	Gwyrdd	M7.1d	Amh.
A7.3	Gwyrdd	M7.1e	Amh.
A7.5	Gwyrdd	M7.3a	Amh.
		M7.3b	Amh.
		M7.3c	Amh.
		M7.3d	Amh.
		M7.3e	Amh.
		M7.3f	Amh.
		M7.4a	Amh.
		M7.4b	Amh.
		M7.4c	Amh.
		M7.5b	Amh.

Canlyniad 8 – Mae pobl yng Nghonwy'n cyfrannu i'w cymuned. Maent yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais			
A7.1	Gwyrdd	M8.2	Amh.
A7.2	Gwyrdd	M8.2a	Amh.
A7.3	Gwyrdd	M8.2c	Amh.
A7.5	Gwyrdd	M8.2d	Amh.
		M8.5	Amh.
		M8.6	Amh.

Canlyniad 9 – Mae CBSC yn wydn (Effeithlon)			
A9.1	Gwyrdd	M9.4a	Amh.
A9.2	Gwyrdd	M9.4b	Amh.
A9.3	Gwyrdd	M9.4c	Amh.
A9.4	Gwyrdd	M9.4d	Amh.
A9.5	Gwyrdd	M9.4e	Amh.
		M9.6	Amh.
		M9.6b	Amh.
		M9.6c	Amh.

Hunanasesiad

Mae Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi datblygu pecyn gwaith hunanasesu ar gyfer cyrff cyhoeddus er mwyn tystiolaethu'r graddau mae'r amcanion lles wedi cael eu bodloni yn ystod y flwyddyn ariannol. Pwrpas y pecyn gwaith yw cynorthwyo i osod meincnod a nodi gwersi ar gyfer gwella adroddiadau yn y dyfodol a galluogi sefydliadau i ystyried sut gallent uchafu eu cyfraniad i'r nodau lles a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Ar gyfer pob Blaenoriaeth Gorfforaethol rydym wedi darparu statws hunanasesu yn erbyn y meini prawf hyn:

'Gwneud newidiadau syml' a ddylai fod yn hawdd a sydyn i'w gweithredu. Yn aml, maent yn gamau gweithredu sydd wedi cael eu profi gan eraill ac â risg isel o fethu. Maent yn defnyddio ac yn ymgysylltu pobl, gan alinio rhaglenni adrannau gwahanol. Lansiodd y Comisiynydd esiamplau o'r 'newidiadau syml' mae rhai cyrff cyhoeddus eisoes yn eu gwneud i fodloni eu hamcanion lles ac uchafu eu cyfraniad i'r nodau lles cenedlaethol:

Mae **'bod yn fwy anturus'** yn golygu camu allan o'r meddylfryd 'busnes fel arfer' a gweithredu i newid sut mae pethau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd. Gan ddynodi cynnydd cynnar i newid ehangach, gall hyn olygu newid mewn strategaeth neu ddull y tîm o wneud rhywbeth ac fe all gynnwys mwy o adrannau a sefydliadau na 'newid syml'.

Gall **'Perchnogi ein huchelgais'** fod yn gam tebyg i 'bod yn fwy anturus' gyda mentrau yn datblygu a mwy o bobl yn cymryd rhan. Bydd y sefydliad yn cymryd risgiau wedi'u rheoli'n dda, gan estyn allan i sectorau eraill i wneud cynnydd a chydweithio ar gyllido neu staffio. Mae'r sefydliad yn diffinio ei ddull fel un uchelgeisiol ac mae staff yn cael eu hannog i weithio ar draws sectorau a dylanwadu newid.

Gall y rhai sy'n '**Arwain y ffordd**' fod y bobl neu sefydliad cyntaf i gyflawni'r camau gweithredu ac yn arwain eraill i ddilyn. Mae hyn yn newid systematig, trawsffurfiol i'r ffordd mae pethau wedi cael eu gwneud ar hyd y blynyddoedd, a bydd angen ailddyrannu adnoddau, amser i roi'r newidiadau yn eu lle a chydweithio gyda chyrff eraill. Mae camau gweithredu yn arloesol, ysbrydoledig a chydweithredol, gan roi'r Ddeddf ar waith ar draws portffolios mawr i gyflawni'r Gymru rydym eisiau. Mae'r ffordd hon o weithio yn cael ei mewnosod yn y sefydliad ac mae arferion da yn cael eu rhannu ag eraill.

Canlyniad 1 – Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus

1.1. Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

Cod Gweithredu	Enw'r Cam Gweithredu	Cod Gweithredu
A1.1	Gweithio gydag ysgolion i wella canlyniadau ym mhob cyfnod allweddol o addysg. Byddwn yn canolbwyntio cefnogaeth ar grwpiau o ddysgwyr fel Plant sy'n derbyn Gofal, y rhai ar brydau ysgol am ddim yn ogystal â herio ein cyflawnwyr uchel.	Oren

Canlyniadau Arholiadau:
Yn ystod haf 2020, nododd ysgolion ganlyniadau anghyson oherwydd y model safoni cenedlaethol a ddefnyddiwyd. Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg yng Nghymru y byddai graddau Lefel A, AS, TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yng Nghymru yn cael eu dyfarnu ar sail Graddau Asesu Canolfannau. Roedd hyn er budd gorau ein pobl ifanc a oedd yn bryderus ac yn ansicr o'u dyfodol.

Roedd pob ysgol uwchradd yn darparu gwybodaeth hanfodol ar lefel ysgol a disgybl i lywio ein cyfathrebiadau â Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC (Bwrdd Arholi Cyd-bwyllgor Addysg Cymru).

Derbyniodd ysgolion raddau AS a Lefel A wedi eu diwygio yn seiliedig ar raddau a aseswyd gan y ganolfan, neu raddau a gyfrifwyd, pa rai bynnag oedd uchaf. Roedd goblygiadau ar gyfer dysgwyr a'u lleoedd mewn prifysgolion ac fe weithiodd ysgolion yn galed i'w cefnogi.
Derbyniodd dysgwyr eu canlyniadau TGAU oedd hefyd yn seiliedig ar y graddau a aseswyd gan y ganolfan neu'r graddau a gyfrifwyd, pa rai bynnag oedd uchaf.

Cyhoeddodd BTEC y dylai ysgolion ddal y canlyniadau a dderbyniwyd eisoes gan fod angen eu hadolygu yn unol â'r broses a ddefnyddir ar gyfer TGAU a Lefel A.

Arholiadau a Chymwysterau Cyffredinol yn 2021 yng Nghymru:
Cadarnhaodd y Gweinidog Addysg, ar gyfer y mwyafrif o bynciau, y bydd gwaith yn cael ei asesu mewn tair ffordd. asesiadau heblaw arholiadau fel gwaith cwrs neu asesiad llafar
asesiadau mewnol a fydd yn cael eu marcio gan athrawon a darlithwyr; ac
asesiadau allanol, wedi'u marcio gan CBAC.

Dyma'r unig asesiadau a fydd yn cyfrif tuag at raddau yn 2021. Cynhaliwyd yr asesiadau mewnol rhwng 22 Chwefror a 23 Ebrill. Roedd hyn yn caniatáu ar gyfer aflonyddwch a chyfnodau o hunan ynysu.

Cynhaliwyd yr asesiadau allanol rhwng 17 Mai a 29 Mehefin. Er bod asesiadau a osodwyd yn genedlaethol y cwblhaodd pob dysgwr ledled Cymru, ni chawsant eu cynnal o dan amodau arholiad arferol.

Roedd canlyniadau'r graddau'n cyd-fynd yn gyffredinol â chanlyniadau 2020, i gydnabod colli amser dysgu ac aflonyddwch cyffredinol. Disgwylir y dylai'r cyfuniad o asesiadau a reolir yn fewnol ac asesiadau heblaw arholiad (lle bo hynny'n berthnasol) gyfrannu cyfran fwy at radd derfynol yr unigolyn na'r asesiad allanol, lle bo hynny'n bosibl.

Plant sy'n Derbyn Gofal:
Mae dulliau nodi clir yn eu lle ar gyfer Cynlluniau Addysg Personol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ac mae'r system yn nodi Cynlluniau Addysg Personol gan sicrhau eu bod yn eu lle a bod amserlenni wedi'u cytuno ar gyfer adolygu. Mae hyn yn sicrhau bod system gadarn mewn grym fel bod dysgwyr yn cael eu holrhain yn effeithiol.

Dysgwyr 14-15 oed (Cyfnod Allweddol 4):
Mae cynnydd tuag at gael trothwy Lefel 2 ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn parhau i fod yn ffocws ar gyfer ein dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae hyn yn cael ei fonitro trwy broses Cynllun Addysg Personol a bydd yn cael ei sefydlu o fewn ymarfer Addysgu Cynhwysiant Plant sy'n Derbyn Gofal gan sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar gyfleoedd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr.

Monitro perfformiad ysgolion a dilyniant disgyblion trwy'r holl gyfnodau allweddol, i nodi cryfderau a gwendidau (targedau cynradd ac uwchradd):

Bu prosesau monitro cynhwysfawr ar waith ar gyfer pob ysgol. Trafodir cryfderau ysgolion ac anghenion datblygu yn fanwl yn y Bwrdd Ansawdd Safonau. Mae'r cyfnod pandemig presennol wedi dod â heriau sylweddol, ond mae llawer o dystiolaeth i ddangos bod ysgolion yn parhau ar eu teithiau gwella a bod dysgwyr yn parhau i wneud cynnydd. Mae'r Consortia Rhanbarthol wedi parhau i gefnogi ysgolion gyda dulliau Dysgu Cyflym a Dysgu Cyfunol yn ogystal â chaniatáu i ysgolion ganolbwyntio ar y gwaith tyngedfennol o ailagor yn ddiogel ym mis Medi 2020.

STEM Gogledd:
Mae 5 allan o 7 ysgol uwchradd yn cymryd rhan yn STEM Gogledd. Yn ystod y cyfnod clo, bu'n rhaid addasu'r ddarpariaeth i weithgareddau ar-lein. Ers mis Medi, mae Mentoriaid STEM yn mynd i ysgolion ac yn gweithio gyda grwpiau penodol o ddysgwyr. Mae'r prosiect ar y trywydd iawn o ran targedau a chyllid.

Prosiect SEREN (Disgyblion mwy galluog a thalentog):
Ataliwyd yr holl weithgareddau SEREN wyneb yn wyneb yn ystod dechrau'r pandemig Covid-19. Disodlwyd hyn gan gyfoeth o adnoddau digidol a gynhaliwyd ar Hwb (porth addysg ar-lein) a hefyd yn uniongyrchol o brifysgolion. Mae'r adborth gan fyfyrwyr wedi bod yn rhagorol a chawsant ystod eang o gefnogaeth pwnc-benodol, cyngor ar ysgrifennu datganiadau personol a gwneud cais am brifysgolion.

Adolygu effaith Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arbenigol yr ALl:
Er bod ystod o fesurau ar waith ar hyn o bryd rydym yn parhau i weithio gyda GwE (consortiwm gwella ysgolion ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru) ar y ffordd fwyaf priodol o fesur darpariaeth yn y dyfodol.

Monitro Cynlluniau Lefel 2 GwE:
Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf 2019/20 trafodwyd cynnydd y cynlluniau a'u monitro trwy gyfarfodydd y Bwrdd Sicrwydd Ansawdd a gynhaliwyd rhwng GwE a'r Awdurdod Lleol. O ganlyniad i newidiadau yn yr Arweinwyr Craidd a'r Tîm Gwasanaeth Gwella Addysg newydd, mae'r broses hon yn cael ei hail-sefydlu yn ystod 2020/21.

A1.2	Datblygu systemau i herio a chefnogi perfformiad ysgolion ledled yr Awdurdod Lleol yn effeithiol.	Gwyrdd

GwE (consortiwm gwella ysgolion i Awdurdodau Gogledd Cymru)

Cymorth yn ystod Pandemig Covid:
Yn ystod y pandemig mae'n amlwg nad yw llawer o ddysgwyr wedi symud ymlaen gymaint ag y gallent o ran eu cynnydd mewn dysgu, gyda rhai wedi cael eu heffeithio'n fwy difrifol nag eraill. Roedd tystiolaeth o ystod o ffynonellau dibynadwy wedi awgrymu bod y rhan fwyaf, neu'r holl ddysgwyr wedi eu heffeithio a bod y rhai mwyaf diamddiffyn wedi eu heffeithio fwyaf. Mae GwE wedi darparu 'pecyn cefnogaeth' i roi mynediad i ysgolion i adnoddau a deunydd dysgu i gefnogi'r Rhaglen Dysgu Carlam, gyda ffocws ar wella cysondeb ac ansawdd dysgu a datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm a'r ystod oedran. Mae'n gefnogaeth draws-gyfnod ac mae ymgynghorwyr cynradd ac uwchradd GwE wedi bod yn gweithio ar ddatblygu'r adnoddau a chefnogi ysgolion.
Sicrhawyd fod cyllid ychwanegol ar gael i fodloni gofynion y 'Rhaglen Dysgu Carlam: Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau' fel y cyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg ym mis Gorffennaf 2020. Mae'r cyllid hwn yn galluogi buddsoddi mewn ysgolion i'w caniatáu i recriwtio a defnyddio gallu dynol ychwanegol i gefnogi dysgwyr i fynd i'r afael â'u hanghenion yn dilyn argyfwng cychwynnol COVID-19 a chyfnod cau ysgolion.

Grŵp Effeithlonrwydd Ysgolion a Safonau (SESG):
Mae'r grŵp hwn yn monitro effeithiolrwydd GwE wrth ddarparu strategaethau gwella mewn ysgolion: Gall swyddogion herio cefnogaeth ac arweiniad a roddwyd i ysgolion tra hefyd edrych ar y cynlluniau busnes lefel 2 ar gyfer darparu ansawdd.
Ataliwyd cyfarfodydd yn ystod 2020 ac mae trafodaethau ar y gweill ynghylch dyfodol a fformat SESG i gael ei gynnal wrth symud ymlaen.

Safonau Ysgolion
Oherwydd pandemig Covid 19 canslodd Llywodraeth Cymru yr holl gasgliadau data ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019/20. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â GwE i ddatblygu ein prosesau herio a chefnogi er mwyn nodi, targedu, cefnogi a herio ysgolion yn ôl yr angen:

Llywodraethwyr Ysgol:
Oedwyd hyfforddiant gorfodol oherwydd Covid 19 ac o ganlyniad i ymadawiad y Prif Swyddog. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei adolygu i barhau gyda hyfforddiant yn ystod y Flwyddyn Academaidd hon.

Mae dogfen recriwtio Rhieni Llywodraethwyr bellach ar gael i ysgolion trwy'r Fforwm Clercod. Mae gwefan Cyngor Conwy bellach yn cynnwys mwy o wybodaeth am rôl a chyfrifoldebau Llywodraethwyr a recriwtio Llywodraethwyr. Rydym yn cefnogi 4 ysgol gyda chlercod ar hyn o bryd. Mae recriwtio clerc Cymraeg yn mynd rhagddo.
Mae un Fforwm Clercod Conwy wedi digwydd gydag adborth da oddi wrth y clercod. Ni chynhaliwyd unrhyw sesiynau pellach oherwydd Covid 19. Mae hyn i'w adolygu yn y flwyddyn academaidd newydd gyda'r bwriad o ailddechrau ar amser priodol a chyraeddadwy.

Model Rheolwr Busnes Ysgol:
Mae Swyddog Datblygu Gwella Addysg newydd bellach yn ei swydd a bydd yn cynnal ac yn symud ymlaen gyda chefnogi a chydlynu Rheolwr Busnes Ysgol.

A1.3	Gweithio gydag ysgolion i roi'r Fframwaith Cymwyseddau Digidol ar waith	Gwyrdd

Gweithredu cymwyseddau digidol o fewn ysgolion:

Mae'r flaenoriaeth hon yn cael ei chyflymu trwy gyflwyno Offeryn Digi 360 Llywodraeth Cymru a fydd yn ein galluogi i weithio ar y cyd â GwE a phartneriaid eraill. Mae dyfeisiau technoleg wedi dechrau cyrraedd ysgolion nawr fel rhan o Raglen Hwb a bydd gwaith seilwaith digidol hefyd wedi'i gwblhau erbyn Haf 2021. Gohiriwyd hyn ychydig oherwydd y pandemig.

Mae'r rhaglen grant ton 4 wedi'i harchebu. Bydd hyn yn caniatáu i ysgolion wella eu cymarebau caledwedd-disgybl yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae rhaglen cynaliadwyedd yn cael ei datblygu.

Mae GwE wedi datblygu Strategaeth Dysgu Digidol ddrafft ar gyfer yr ysgolion ar draws chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru. Mae GwE yn cynnig arweiniad ar arddulliau dysgu cyfunol priodol, sy'n briodol ar gyfer amgylchiadau Covid a oedd yn caniatáu i addysg barhau yn y cyfnod clo. Roedd model clwstwr TG rhanbarthol yn cael ei ddatblygu gan GwE - ac mae angen ailedrych ar hyn bellach. Mae Grŵp Llywio TGCh Conwy hefyd yn hyrwyddo cydweithio a rhannu syniadau TGCh. Ariannwyd mesurau ar gyfer ecwiti digidol yn ystod y cyfnod clo. Mae angen cymryd camau pellach i nodi a gweithredu anghenion hyfforddi ysgolion.

Hyrwyddo a Datblygu Llwyfan Dysgu HwB mewn Ysgolion:
Rydym wedi parhau i gyflwyno Hwb i staff Blynyddoedd Cynnar ac Arlwyo mewn ysgolion a hefyd gwasanaethau canolog i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau statudol i ysgolion yn ystod y pandemig. Mae'r pandemig wedi ein galluogi i gyflymu'r defnydd o Hwb yn gyffredinol mewn ysgolion ac rydym wedi symud ymlaen lawer ymhellach mewn meysydd fel dysgu ar-lein nag eraill yr oeddem yn canolbwyntio arnynt i ddechrau.

A1.4	Gweithio i gael y cydbwysedd cywir - yn ogystal â bod yn llythrennog mewn TG, mae angen i bobl ifanc allu chwarae a bod yn llythrennog yn gorfforol. Byddwn yn edrych ar ffyrdd o helpu i leihau gordewdra mewn plentyndod a gwella iechyd emosiynol.	Gwyrdd

Mae Actif Conwy wedi cwblhau ei gynllun gweithredu strategol newydd, Ein Dyfodol Actif ac Iach. Dyma ddull Actif Conwy o wella gweithgarwch corfforol a gwella llythrennedd corfforol. Mae Llythrennedd Corfforol yn golygu fod gan berson gatalog o sgiliau technegol ynghyd â'r hyder a'r ysgogiad i gymryd rhan mewn nifer o chwaraeon gwahanol a gweithgareddau corfforol ar bob cam o'u bywyd.

O fewn y cynllun mae gan Actif Conwy 4 maes blaenoriaeth: Mae cyfyngiadau Covid wedi effeithio ar y gallu i gyflawni'r rhaglen hon ac mae Actif Conwy wedi bod yn cynllunio yn barod ar gyfer pryd y gall gweithgareddau ailddechrau. Rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Nant Bwlch yr Haearn a Chanolfannau Teulu i gyflwyno prosiect teulu Ein Antur Fawr gyda chymunedau mwyaf difreintiedig Conwy pan allwn wneud hynny.

1. Dechrau Actif – Rhaglen datblygu blynyddoedd cynnar ar gyfer rhai 0-4 oed i wella a chynyddu'r cyfle i gynnwys datblygiad corfforol a gweithgarwch corfforol

Lles Teuluoedd Actif:
Cyflwynwyd dosbarthiadau 'Lles Teuluoedd Actif' ar-lein ddwywaith yr wythnos trwy Facebook Live. Anelwyd dosbarthiadau at rieni a'u plant i ddod at ei gilydd i symud, ymestyn ac ymlacio gyda'i gilydd yn eu cartrefi yn ystod cyfnodau clo Covid-19. Ar hyn o bryd mae un sesiwn ar-lein yn parhau ar brynhawn Mawrth ar gyfer teuluoedd nad ydyn nhw efallai'n teimlo'n hyderus i fynychu dosbarthiadau wyneb yn wyneb. Bellach cyflwynir yr ail sesiwn wyneb yn wyneb (yn dilyn holl ganllawiau Covid-19 y llywodraeth) ym Mharc Eirias. Mae'r holl ddosbarthiadau am ddim i'w mynychu.

Rhieni Chwareus:

Mewn Partneriaeth â thîm Datblygu Chwarae Conwy rydym wedi bod yn cyflwyno sesiynau Rhieni Chwareus yn y parc. Mae'r sesiynau hyn yn annog rhieni â phlant 0 - 5 oed i dreulio peth amser yn yr awyr agored, yn archwilio, symud a chwarae. Nod y sesiynau yw pontio'r bwlch ar gyfer paratoi plant i ddychwelyd neu i ddechrau'r ysgol gan mai ychydig o grwpiau rhieni a phlant bach sydd ar gael o ganlyniad i Covid-19. Mae'r sesiynau hyn yn rhad ac am ddim i'w mynychu.

Aerobeg Dŵr I Ferched Beichiog a Rhaglen Mentor Actif Conwy
Dwy raglen sydd ar saib ar hyn o bryd yw'r dosbarthiadau Aerobeg Dŵr i Ferched Beichiog a rhaglen fentor Actif Conwy ar gyfer plant oed cyn-ysgol.

Bydd ein dosbarthiadau Aerobeg Dŵr i Ferched Beichiog yn ailddechrau pan fydd ein hyfforddwr (bydwraig Dechrau'n Deg) yn gallu darparu'r sesiynau hyn yn ddiogel.

Mae rhaglen fentor Actif Conwy yn cael ei hadolygu ynghyd â sut y bydd hyn yn gweithio wrth symud ymlaen gyda'r ysgolion yn rhyddhau mentor a'r lleoliadau cyn-ysgol yn caniatáu ymwelwyr.

2. Bod yn Actif – rhaglen i rai 4-11 oed sy'n canolbwyntio ar weithgarwch corfforol dyddiol i'r holl bobl ifanc 4-11 oed yng Nghonwy

Ers ailgychwyn ysgolion ym mis Medi 2020, mae tîm Actif Conwy wedi datblygu rhaglen gymorth newydd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghonwy, o'r enw Yn ôl i'r Ysgol / Actif Gyda'n Gilydd. Pwrpas y rhaglen newydd hon yw cynorthwyo ysgolion i ddarparu sesiynau gweithgaredd corfforol / chwaraeon i'w holl ddisgyblion.

Mae pob ysgol gynradd yng Nghonwy wedi cael cynnig diwrnod yr wythnos am hanner tymor gyda hyfforddwr awyr agored / hyfforddwr chwaraeon. Isod mae crynodeb o'r gefnogaeth a dderbyniwyd hyd yma (Medi-Rhagfyr):

• Cefnogwyd 17 o ysgolion cynradd gan y rhaglen gydag 8 ysgol arall yn barod am gefnogaeth yn ystod tymor y gwanwyn yn 2021
• Mae 516 o ddisgyblion wedi cymryd rhan yn y Sesiynau Dysgu Awyr Agored.
• Mae 1241 o ddisgyblion wedi elwa o'r gefnogaeth
• Ein buddsoddiad i'r prosiect hwn yw £22,080.00 gyda £11,280.00 ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer cefnogaeth yn ystod tymor cyntaf 2021. Mae'r buddsoddiad hwn yn cyfateb i £2.96 fesul sesiwn disgybl.
• Mae pob ysgol wedi graddio'r gefnogaeth yn Dda neu'n Ardderchog.
• Mae pob ysgol wedi nodi yr hoffent gael mwy o gefnogaeth fel hyn yn y dyfodol agos.

3. Aros yn Actif – rhai 11-16 oed – sef disgyblion sy'n parhau i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol drwy sicrhau bod ystod eang a chytbwys ar gael iddyn nhw sy'n cael ei ysgogi gan ddisgyblion
Darparodd tîm Actif Conwy gyllid ar gyfer ysgolion uwchradd ar gyfer Tymor y Pasg 2020 er mwyn i'r ysgolion ddarparu rhaglenni gweithgaredd i'w dysgwyr.

Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, mae'r tîm wedi canolbwyntio eu hymdrechion ar ysgolion cynradd ers ailagor ysgolion. Ar hyn o bryd mae Actif Conwy yn gweithio gydag ysgolion uwchradd i werthuso rhaglenni y gellid eu gweithredu yn ystod Tymor y Gwanwyn a'r Haf.

4. Nofio Ysgolion – sicrhau fod pob plentyn yn gallu nofio erbyn pan fyddant yn gadael yr ysgol gynradd.
Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 ni chynhaliwyd unrhyw wersi nofio mewn ysgolion ers mis Mawrth 2020.

Dangosodd data a dderbyniwyd o ddau bwll nofio yn 2019-20 mai canran y disgyblion ym Mlwyddyn 6 oedd yn gallu nofio oedd 82%, cynnydd o 4% ar y flwyddyn flaenorol, a chynnydd o 42% yn y pedair blynedd diwethaf.

Rydym yn gweithio gyda TG, Hamdden a Nofio Cymru ar y system Pasbort y Dŵr. System ar-lein yw hon sy'n cael ei chynnal gan Nofio Cymru er mwyn cadw golwg ar gynnydd nofwyr. Mae ganddi borth hefyd sy'n galluogi rhieni i fewngofnodi o gartref i weld cynnydd eu plentyn yn eu gwersi nofio a pha elfennau y dylen nhw eu hymarfer er mwyn ennill eu bathodyn. Bu rhai problemau gyda'r allforio data i'r System Pasbort y Dŵr, ond mae gwaith yn cael ei wneud ar y rhain bellach ac mae cynnydd yn cael ei wneud. Mae dyddiadau'n cael eu trefnu er mwyn ail-lansio'r system gyda Chanolfannau Hamdden a chyda rhieni'r nofwyr.
Anogir pob gwasanaeth i gefnogi'r flaenoriaeth hon i helpu pobl ifanc i aros yn egnïol ac i ymgysylltu. Mae gwaith mewn meysydd eraill yn cynnwys:

- Cynhaliwyd sesiynau dawns yr Young Fliers tu allan yn Y Fach yn ystod mis Medi 2020
- Cynhaliwyd sesiynau Dawns i'r Teulu ar-lein drwy gydol 2020/21

- Llwybr celfyddydau i'r teulu wedi'i guradu yn Abergele i gysylltu â ffilmio I'm A Celebrity. Dyluniwyd y llwybr i annog teuluoedd i fynd allan a cherdded gyda'i gilydd yn ystod y cyfnod clo
- Cynhaliwyd Cymerwch RAN 2021 ar-lein a gyda nifer o osodiadau celfyddydol a llwybrau celf o amgylch Llandudno, gan annog pobl ifanc a theuluoedd i symud o amgylch y dref. Roedd gweithgareddau ar-lein yn cynnwys gweithdai dawns a fideos.

A1.5	Byddwn yn parhau i gefnogi ysgolion gyda rheolaethau a pholisïau Covid parhaus	Gwyrdd

Yn ystod cyfnodau clo'r pandemig ni chaeodd ein hysgolion. Fe wnaethant aros yn agored i blant diamddiffyn a phlant gweithwyr allweddol. Rhoddodd Conwy nifer o fesurau ar waith i gefnogi ysgolion a phobl yn ystod y pandemig:

Roedd **darpariaeth gofal plant brys** wedi'i darparu ar gyfer rhieni a gofalwyr yn gynnar yn y pandemig. Daeth y ddarpariaeth hon i ben ar 17 Gorffennaf 2020.

Lwfans talu am brydau ysgol am ddim - Gwnaed trefniadau i dalu lwfansau i gyfrifon banc rhieni / gofalwyr hyd at yr wythnos olaf ym mis Awst 2020. O 1 Medi 2020 dychwelodd y Lwfans Prydau Ysgol Am Ddim i fod yn fudd bwyd a gynigiwyd i'r plant hynny fel pryd ysgol am ddim yn yr ysgol.

Darpariaeth Ailgydio a Dal i fyny - Rhoddwyd cyfle i bob plentyn ysgol ddychwelyd i'r ysgol cyn diwedd tymor yr haf 2020. Cytunodd mwyafrif yr awdurdodau lleol y byddai'r ddarpariaeth Ailgydio a Dal i fyny yn dod i ben ddydd Gwener 17 Gorffennaf 2020, ond cynigiwyd dyddiad gorffen diwedd tymor Conwy ar gyfer y Ddarpariaeth Ailgydio a Dal i fyny am y 4edd wythnos ychwanegol a pharhaodd tan y 24 Gorffennaf 2020, gan ein bod yn teimlo y byddai darparu'r wythnos ychwanegol hon yn fwy buddiol i'r plant yng Nghonwy.

Asesiad risg - cefnogwyd ysgolion i ddiweddaru eu hasesiadau risg ar gyfer cynlluniau ailagor. Roedd cyfarfodydd asesu risg yn cynnwys cynrychiolwyr o bob ysgol, uwch swyddogion, ymgynghorwyr iechyd a diogelwch ac undebau llafur.

PPE - cefnogwyd pob ysgol i sicrhau trefniadau cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ac effeithiol gan gynnwys gorsafoedd glanweithio dwylo a danfon y masgiau PPE ac ati.

Taliadau Uniongyrchol a Pharseli Bwyd i ddysgwyr sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim - roedd hyn yn cynnwys taliadau uniongyrchol i deuluoedd yn ystod gwyliau ysgol, ac wrth hunan-ynysu, er mwyn helpu i sicrhau bod rhieni / gofalwyr yn dal i gael lwfans i brynu bwyd maethol i'w plant, hyd yn oed yn yr amseroedd anodd hyn.

Dull dysgu – datblygodd ysgolion ddull o ddysgu oedd yn ddigon hyblyg i addasu i wahanol senarios a chyfnodau amrywiol dysgu yn yr ysgol a dysgu gartref neu mewn mannau eraill.

Cefnogi Disgyblion gyda Gweithgareddau'r Haf - Dyrannwyd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithgareddau'r Haf ar gyfer Plant a Phobl ifanc o Ardaloedd o Amddifadedd Economaidd. Roedd hyn yn ein galluogi i ddarparu gweithgareddau ymgysylltu a chyfoethogi a fyddai'n helpu plant a phobl ifanc mewn ardaloedd o amddifadedd i ail gysylltu ag addysg. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys chwaraeon, cerddoriaeth, celf a chrefftau.

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Dysgwyr Diamddiffyn - Parhaodd y tîm i ddarparu cefnogaeth o bell lle bynnag y bo modd er mwyn lleihau'r pwysau ar ysgolion o ran ymweliadau safle a nifer y staff allanol ar y safle; fodd bynnag, rydym hefyd yn sicrhau ein bod yn cynnal ymweliadau, asesiadau, ymyriadau ac ati 'wyneb yn wyneb' lle bynnag y bo modd ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Rydym yn ymwybodol y bydd ysgolion yn wahanol yn eu gallu i ganiatáu darparu cefnogaeth arbenigol ar y safle, ac rydym am sicrhau, a rhoi sicrwydd i deuluoedd, na fydd safon y ddarpariaeth yn cael ei chyfaddawdu gan y dull cyflwyno.

Cludiant - Er mwyn sicrhau cyn lleied o drosglwyddo â phosib, gofynnom fod rhieni, lle bo hynny'n bosibl, yn cludo eu plant i'r ysgol ond bod darpariaeth cludiant ysgol yn cael ei chynnal gyda rheolaethau fel masgiau wyneb mewn grym.

Dysgwyr sydd wedi'u Heithrio yn Ddigidol - Cefnogom ysgolion trwy sicrhau bod ystod o ddyfeisiau (o liniaduron i chromebooks) ar gael i ddysgwyr fel y gallent gael gafael ar adnoddau dysgu gartref ar HwB. Darparwyd Mifi Dongles i ddysgwyr hefyd, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cysylltu'n briodol.

Cyfathrebu - Rydym wedi cyfathrebu'n rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol trwy gydol y pandemig. Mae cyfarfodydd llif gwaith wedi bod yn gyson 4 gwaith yr wythnos gydag Uwch Swyddogion Addysg arweiniol. Mae cyfarfodydd rhithiol o bell â Phenaethiaid wedi'u cynnal trwy Teams. Rhannwyd papurau briffio a dogfennau wythnosol gydag ysgolion, gyda

chyfarwyddyd a dogfennau i'w cefnogi. Wrth i ysgolion ailagor i'w capasiti llawn ym mis Medi, dyfeisiwyd Cwestiynau Cyffredin i rieni a gwarcheidwaid gael mynediad iddynt ar wefan Conwy.

TRAC:
Mae TRAC yn brosiect ar draws chwe sir Gogledd Cymru. Ei nod yw atal plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed rhag ymddieithrio mewn addysg a thrwy wneud hynny lleihau'r tebygolrwydd eu bod yn anactif ac yn ddi-waith yn y dyfodol. Mae TRAC yn brosiect a ariennir gan Ewrop ac mae wedi bod ar waith ers mis Medi 2015 a bydd yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2022.

- Profwyd bod tensiynau teuluol yn uchel mewn cartrefi tlawd.
  Mae TRAC yn gweithio'n agos gyda theuluoedd i adeiladu gwell cysylltiadau a chynorthwyo aelodau'r teulu i archwilio eu ffiniau a'u rheolau eu hunain a thrwy hynny ddod ag aelodau'r teulu yn agosach at ei gilydd.
- Roedd TRAC yn darparu cefnogaeth agos naill ai wyneb yn wyneb neu o bell i gefnogi pobl ifanc ac i sicrhau bod ganddynt bwynt mynediad pe baent angen help neu rywun i siarad â nhw
- Roedd y pandemig yn amser heriol iawn.
  Gweithiodd TRAC yn galed i gadw cysylltiad agos â theuluoedd, cadw cysylltiad â banciau bwyd a sicrhau bod teuluoedd yn cyrchu prydau ysgol am ddim.
- Roedd gan TRAC gysylltiadau agos ag ysgolion i sicrhau bod gan y dysgwyr tlotach fynediad i Chromebooks ac ati i gael mynediad at waith ysgol ar-lein.
- Roedd gan TRAC gysylltiad agos ag asiantaethau, Gwasanaethau Cymdeithasol, canolfannau teulu ac ysgolion i sicrhau bod pob teulu sy'n wynebu tlodi yn ddiogel.
- Fe wnaeth y cysylltiadau agos hyn alluogi ymatebion cyflym i sefyllfaoedd ac mae TRAC wedi bod yn allweddol wrth ddarparu gwybodaeth oherwydd eu perthnasoedd â phobl ifanc a'u teuluoedd.

Adolygiad Thematig Estyn - Cynhaliodd ESTYN adolygiad thematig o'n gwasanaethau cymorth ysgolion canolog yng Nghonwy yn ystod y pandemig. Roedd yr adolygiad yn cynnwys adborth dysgwyr, cyfweliadau â Phrifathrawon, holiaduron rhanddeiliaid (rhieni), cyfweliadau â llywodraethwyr, Aelodau Etholedig a chyfweliadau â swyddogion.

Fe wnaeth ein Harolygwyr Cyswllt, ddarparu adborth cadarnhaol a chyfeirio'n benodol at;

- Darpariaeth ôl-16 Conwy
- Y cynnig dysgwyr agored i niwed ar gyfer dysgwyr ag ADY
- Cynhwysiant cymdeithasol rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed mewn lleoliad ysgol neu fel arall
- Ein darpariaeth a'n cefnogaeth iaith Gymraeg i ysgolion Our Welsh language provision and support to schools
- Darpariaeth yn ein lleoliadau nas cynhelir
- Cefnogi lles gweithlu ein hysgolion
- Cydweithio gyda'n consortia rhanbarthol
- Ail-bwrpasu gwasanaethau presennol mewn ymateb i'r pandemig
- Cefnogi ysgolion ar eu dychweliad (Asesiadau Risg/ IaD/Arlwyo)
- Sicrhau hygyrchedd digidol i'n dysgwyr

1.2. Sut y byddwn yn gwybod os ydym yn gwneud gwahaniaeth?

Cod mesurau	Teitl y Mesurau	Gwirioneddol 19/20	Targed 20/21	Gwirioneddol 20/21	Targed 21/22	CAG Perfformiad
M1.1g	Canran ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant (NEET)	1.40	Dim Targed	1.60	Dim Targed	Amh.
Nid oedd gan un ar bymtheg o bobl ifanc gyrchfan hysbys felly fe'u cofnodwyd fel NEET. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod y pandemig wedi effeithio ar gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn ystod 2020.						
M1.1h	Sgôr cyfartalog wedi'i gapio 9 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 11	349.40	Dim Targed	0.00	Dim Targed	Amh.
Nid yw data Blwyddyn Academaidd 19/20 ar gael oherwydd canslo arholiadau oherwydd Covid 19.						

M1.3a	% y llywodraethwyr sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant Llywodraethwyr Newydd gorfodol cyn pen 12 mis ar ôl dechrau yn y swydd	Dim data	100.00	Dim data	100.00	Amh.
Rhannwyd gwybodaeth yn rheolaidd â chyrff llywodraethu ysgolion dros y 12 mis diwethaf i gefnogi gweithrediadau parhaus ac ailagor ysgolion yn ystod Covid-19. Nid yw casglu data hyfforddi wedi'i gwblhau yn ystod y cyfnod hwn oherwydd bod blaenoriaethau a chanllawiau ychwanegol yn cael eu rhannu ag ysgolion gan Lywodraeth Cymru.						
M1.3b	% y llywodraethwyr sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant Diogelu gorfodol o fewn 12 mis ar ôl dechrau yn y swydd	Dim data	100.00	Dim data	100.00	Amh.
Rhannwyd gwybodaeth yn rheolaidd â chyrff llywodraethu ysgolion dros y 12 mis diwethaf i gefnogi gweithrediadau parhaus ac ailagor ysgolion yn ystod Covid-19. Nid yw casglu data hyfforddi wedi'i gwblhau yn ystod y cyfnod hwn oherwydd bod blaenoriaethau a chanllawiau ychwanegol yn cael eu rhannu ag ysgolion gan Lywodraeth Cymru.						
M1.3c	% y llywodraethwyr sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Trin Data gorfodol o fewn 12 mis ar ôl dechrau yn y swydd	Dim data	100.00	Dim data	100.00	Amh.
Rhannwyd gwybodaeth yn rheolaidd â chyrff llywodraethu ysgolion dros y 12 mis diwethaf i gefnogi gweithrediadau parhaus ac ailagor ysgolion yn ystod Covid-19. Nid yw casglu data hyfforddi wedi'i gwblhau yn ystod y cyfnod hwn oherwydd bod blaenoriaethau a chanllawiau ychwanegol yn cael eu rhannu ag ysgolion gan Lywodraeth Cymru.						
M1.4a	% y disgyblion sy'n gadael yr ysgol gynradd sy'n gallu nofio	78.00	80.00	Dim data	95.00	Amh.
Oherwydd pandemig Covid-19 a chau canolfannau hamdden a dysgu o bell, nid oes data ar gael ar ddiwedd y flwyddyn Mawrth 2021.						
M1.4b	% y disgyblion sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant 'bikeability' cyn gadael yr ysgol gynradd	99.00	80.00	0.00	70.00	 Coch
Ni chyflwynwyd unrhyw hyfforddiant yn ystod 2020/21 oherwydd dysgu o bell gan ysgolion mewn ymateb i bandemig Covid.						
M1.4c	% o blant 7-11 oed sy'n cymryd rhan mewn 20 neu fwy o sesiynau gweithgarwch corfforol (allgyrsiol)	Dim data	60.00	Dim data	60.00	Amh.
Oherwydd pandemig Covid-19, cau canolfannau hamdden a dysgu o bell gan ysgolion, nid oes data ar gael ar ddiwedd y flwyddyn Mawrth 2021.						
M1.4d	% o blant 11-16 oed sy'n cymryd rhan mewn 20 neu fwy o sesiynau gweithgarwch corfforol (allgyrsiol)	Dim data	65.00	Dim data	65.00	Amh.
Oherwydd pandemig Covid-19, cau canolfannau hamdden a dysgu o bell gan ysgolion, nid oes data ar gael ar ddiwedd y flwyddyn Mawrth 2021.						
M1.4e	% y plant sydd dros eu pwysau neu'n ordew	Amh.	Dim Targed	Amh.	Dim Targed	Amh.

	(Arolwg Cenedlaethol Cymru)					
Ni fu arolwg diweddar gan Lywodraeth Cymru						
M1.4f	Nifer yr oriau a wirfoddolwyd gan Lysgenhadon Ifanc yng Nghonwy	Dim data	7,500.00	Dim data	7,500.00	Amh.
Oherwydd pandemig Covid-19 a dysgu o bell gan ysgolion, nid oes data ar gael ar ddiwedd y flwyddyn Mawrth 2021.						
M1.4g	Nifer y bobl ifanc (11-16 oed) sydd ag Aelodaeth Iau Ffit Conwy	Amh.	Dim Targed	96.00	Dim Targed	Amh.
Roedd gennym 96 aelod iau ar 31 Mawrth, er bod pob aelodaeth wedi'u rhewi ar y dyddiad hwn. Ymunodd 25 rhwng 1 Ebrill 2020 a 30 Medi 2020 Ymunodd 44 rhwng 1 Hydref 2020 a 31 Mawrth 2021.						

Hunanwerthuso perfformiad

Hunanasesiad Gwirio Siwrnai Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Arwain y Ffordd

Mae goblygiadau'r pandemig byd-eang wedi sbarduno newid digynsail yn y ddarpariaeth addysg ac o dan amserlenni tynn dros ben a phwysau sylweddol. Mae wedi bod yn gyfnod heriol iawn i bawb dan sylw ond mae'r pandemig wedi ein galluogi i ddod at ein gilydd a chydweithio. Mae'r allbynnau wedi cynnwys newidiadau i'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu, cefnogi, addysgu a monitro dilyniant pobl ifanc. Rydym wedi cyflymu ein strategaeth addysg ddigidol a'r defnydd o Hwb mewn ysgolion ac rydym i bob pwrpas wedi datganoli cyfleoedd dysgu ar-lein. Fel pob cyngor ledled Cymru, rydym wedi bod yn arwain y ffordd oherwydd bu hwn yn newid systematig, trawsnewidiol i'r ffordd y mae pethau wedi cael eu gwneud erioed mewn cydweithrediad â chyrff eraill. Yn ystod yr amser hwn cawsom gyfres o adolygiadau thematig a gynhaliwyd gan Estyn, mae'r rhain wedi darparu adborth cadarnhaol iawn ar ein dulliau a'n blaenoriaethau yn y dyfodol. Ein hunan-adlewyrchiad o'n perfformiad yw bod ein gweithredoedd i fynd i'r afael â chefnogi pobl ifanc yn ystod y cyfnod clo yn arloesol, yn gydweithredol ac roedd gennym agwedd 'gallwn wneud' tuag at ddatrys heriau. Mae ein dull o gyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn flaengar ac wedi galluogi ysgolion i barhau i ddarparu addysg i bob dysgwr trwy gydol y pandemig.

Sut mae'r canlyniad hwn yn cyfrannu tuag at y nodau lles?
Ein nod tymor hir yw canolbwyntio ar system yr ysgol gyfan, mae ein plant yn ddysgwyr mentrus ac abl. Maen nhw'n unigolion iach a hyderus sy'n chwarae rhan weithgar mewn cymunedau ac sydd â'r sgiliau yn barod ar gyfer y cyfleoedd swyddi sydd ar gael. Mae hyn yn cefnogi'r nodau lles ar gyfer Cymru gydradd, Cymru ffyniannus, diwylliant a'r iaith Gymraeg, Cymru fwy iach a chymunedau mwy cydlynol.

Meysydd i'w gwella / datblygu
Croesawyd y cyhoeddiad gan Weinidog Addysg Cymru y byddai graddau Lefel A, AS, TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yn cael eu dyfarnu ar sail Graddau Asesu Canolfannau ar draws Gogledd Cymru. Rydym yn hynod falch o'r canlyniadau y mae ein dysgwyr ifanc wedi'u cyflawni er gwaethaf yr amgylchiadau heriol yr oeddent yn eu hwynebu yn ystod y cyfnodau clo. Mae'r dysgwyr hyn wedi cael amser eithriadol o anodd, ac mae eu canlyniadau ar ffurf wahanol gan eu bod wedi cael eu hasesu ar draws ystod o dystiolaeth yn hytrach nag arholiad ar ddarn penodol. Felly mae cymariaethau'n ddi-fudd ac rydym wedi annog ein dysgwyr i fod â hyder yn eu cyflawniadau. Mae tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau yn awgrymu bod y mwyafrif neu'r holl ddysgwyr wedi cael eu heffeithio mewn rhyw ffordd, ac mai'r rhai mwyaf diamddiffyn sydd wedi'u heffeithio fwyaf. Fel awdurdod lleol byddwn yn parhau i ddarparu ystod o wasanaethau ac ymyriadau cymorth wedi'u targedu a chyffredinol wedi'u seilio ar dystiolaeth i ddysgwyr diamddiffyn a'u teuluoedd i gefnogi eu lles a sicrhau eu hymgysylltiad â dysgu.

Gofynnodd Comisiynydd Plant Cymru i blant a phobl ifanc Cymru am eu meddyliau a'u teimladau yn ystod pandemig y coronafeirws ac mae adroddiad 'Y Coronafeirws a Fi' wedi'i gyhoeddi ar gyfer Conwy. Mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol, byddwn yn datblygu ein strategaethau pwrpasol ymhellach i fonitro a mynd i'r afael ag effaith hirdymor y pandemig ar iechyd corfforol a meddyliol disgyblion.

Canlyniad 2 – Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

2.1. Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

Cod Gweithredu	Enw'r Cam Gweithredu	CAG Perfforr
A2.1	Byddwn yn sicrhau o fewn y Cyngor, bod dull corfforaethol cyson ar gyfer diogelu a bod pob gwasanaeth yn dilyn yr un fframwaith sy'n cefnogi'r Polisi Diogelu Corfforaethol	Gwyrdd

Mae diogelu yn ystod y pandemig wedi parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Rydym wedi parhau i gwrdd fel Bwrdd Diogelu Corfforaethol (BDC) a Rheolwyr Diogelu Dynodedig (RhDD). Yn ystod misoedd cynnar y pandemig gostyngwyd nifer yr adroddiadau diogelu a dderbyniwyd gan gofal cymdeithasol, o bosibl yn gysylltiedig â diffyg 'llygaid a chlustiau yn y gymuned'. Felly creodd y Bwrdd fideo i hyrwyddo 'bod diogelu yn fusnes pawb'. O ganlyniad gwelsom gynnydd bach mewn adroddiadau diogelu yn cael eu gwneud.

Diweddarwyd y Polisi Diogelu Corfforaethol i adlewyrchu Gweithdrefnau Diogelu Cymru a derbyniwyd ef yn y BDC ar 22 Mehefin 2020. Mae'r polisi'n parhau i fod ar gael ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd.

Yn ystod Wythnos Diogelu ym mis Tachwedd 2020 cynhaliom y gynhadledd ar Gamfanteisio gyda Nazir Afzal OBE yn brif siaradwr. (Mae Nazir Afzal yn gyn Brif Erlynydd y Goron gyda ffocws arbennig ar drais domestig, cam-drin plant yn rhywiol, a thrais ar sail anrhydedd). Gan fod y gynhadledd hon wedi'i chynnal yn rhithiol roeddem yn gallu agor y digwyddiad hwn i bartneriaid. Roedd gennym dros 130 o gynrychiolwyr yn y digwyddiad a gadeiriwyd gan Iwan Davies (Cadeirydd BDC a Phrif Weithredwr Conwy) a'r sylwadau cloi gan y Cynghorydd Sam Rowlands (aelod o'r BDC ac ar y pryd, yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

Darparwyd hyfforddiant i bob ysgol trwy weminar ar weithdrefnau Diogelu Cymru newydd. Ar gyfer y rhai nad oeddent yn gallu bod yn bresennol, cawsant y canllaw 'beth sydd wedi newid'. Mae hyfforddiant pellach ar gyfer y flwyddyn academaidd hon yn yr arfaeth.

Rheolwr y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yw'r Pwynt Sengl ar gyfer Caethwasiaeth Fodern ac oherwydd y Llwybr Caethwasiaeth Fodern yn fewnol mae pobl yn riportio amheuon i'r Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol sy'n dangos bod pobl yn talu sylw i'r hyfforddiant ar-lein.

Cynorthwyodd y Tîm i ail-dendro'r gwasanaeth Ymgynghorydd Cam-drin Domestig Annibynnol Rhanbarthol i sicrhau gwasanaeth teg ledled Gogledd Cymru ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig gan amddiffyn dioddefwyr a'u teuluoedd.

Mae ein Cynllun Gweithredu Diogelu wedi'i wreiddio'n llawn yn CAMMS - ein meddalwedd rheoli perfformiad - gyda thasgau wedi'u neilltuo i unigolion perthnasol. Mae'r tasgau yn y cynllun gweithredu yn parhau i fod yn ganolbwynt i'r gwaith a wnaed gan y RhDD a gwnaed cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er gwaethaf y pandemig parhaus.

A2.2	Byddwn yn monitro ein dull ac yn ceisio gwella recriwtio a chyflogaeth yn ddiogel yn barhaus.	Gwyrdd

Er gwaethaf y pandemig rydym wedi parhau i recriwtio staff ac wedi newid ein prosesau recriwtio yn unol â hynny. Dechreuodd 100% o'r staff eu swydd gyda 2 eirda a gwiriad DBS (lle bo angen). Yn ystod y pandemig gwnaethom ailstrwythuro a chreu gwasanaeth Economi a Diwylliant yn llwyddiannus a recriwtio 3 swydd uwch reolwyr.

Mae prosiect Gwirfoddolwyr a Staff Asiantaeth wedi'i sefydlu o dan y Rhaglen Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Bydd y prosiect hwn yn sicrhau bod gennym yr holl wybodaeth hanfodol am wirfoddolwyr a staff asiantaeth sy'n llenwi rolau o'r fath ar draws yr awdurdod, ynghyd â'r sgiliau, yr hyfforddiant a'r cymwyseddau angenrheidiol sydd eu hangen.

Mae enwau gwirfoddolwyr wedi cael eu mewnbynnu i iTrent ac i Lwyfan Dysgu Cymru Gyfan fel y gall gwirfoddolwyr gael mynediad at hyfforddiant. Mae rhai gwirfoddolwyr eisoes wedi cyrchu'r modiwlau e-ddysgu ar gyfer Diogelu, VAWDASV (trais yn erbyn merched a cham-drin domestig), GDPR (Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data) a Chaethwasiaeth Fodern. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi adrodd yn gywir ar yr hyfforddiant a gwblhawyd. Mae angen cyswllt pellach â'r Gwasanaethau a chefnogaeth i gasglu'r wybodaeth fanylach am wirfoddolwyr.

A2.5	Derbyn sicrwydd gan ysgolion bod Llywodraethwyr yn cwblhau hyfforddiant diogelu.	Oren

Ar hyn o bryd mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cynghori Llywodraethwyr y dylent gwblhau hyfforddiant diogelu. Gan ei fod yn bolisi corfforaethol yng Nghonwy, mae'r holl Lywodraethwyr yn ymwybodol o'r polisi diogelu ac yn awr yn cydymffurfio yn ôl yr angen.

Cynigiwyd hyfforddiant diogelu uwch i'r holl Lywodraethwyr sy'n gyfrifol am ddiogelu - darparwyd gwybodaeth trwy gyflwyniad powerpoint oherwydd Covid, a oedd yn amlinellu adnabod plant sydd wedi bod yn bresennol yn ystod digwyddiad domestig yn gynnar i rybuddio ysgolion am hyn a sut i ymateb.

A2.7	Byddwn yn cefnogi Llywodraeth Cymru a'n cymunedau lleol i gadw pellter cymdeithasol a mesurau rheoli eraill yn ystod Covid	Gwyrdd

Trwy gydol y pandemig rydym wedi dilyn a chefnogi deddfwriaeth ac arweiniad y Llywodraeth trwy'r ffordd yr ydym wedi defnyddio ein hadeiladau, ein cyfathrebiadau craidd i'r cyhoedd, a'r ffordd y gwnaethom ddefnyddio technoleg i gefnogi pobl, ysgolion a chynnig cymaint o barhad busnes â phosibl. Rydym hefyd wedi cefnogi ein gweithlu mawr ac amrywiol. Er enghraifft:

- Buom yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod systemau diogel priodol ar waith ar gyfer myfyrwyr, staff addysgu a chymorth yn ogystal ag ymwelwyr â safleoedd.
- Gweithiom gyda chartrefi gofal i lywio ein penderfyniadau ar gyfer ymweliadau.
  Helpodd hyn i osgoi gorfodi cyfyngiadau cyfan gwbl. Gwnaethom gefnogi busnesau i gyflwyno systemau ac ymatebion priodol.
- Fe wnaethom ddarparu offer PPE a threfniadau cymorth priodol i staff er mwyn sicrhau y gallent barhau i gefnogi cleientiaid ac ymweld ag adeiladau.
  Bu i ni addasu polisïau fel y gall staff weithio'n hyblyg er mwyn cael cydbwysedd rhwng ymrwymiadau'r cartref a'r gwaith, gan gynnwys addysgu gartref ac ati
- Rydym yn cyflwyno system apwyntiadau canolfan ailgylchu i gefnogi pobl a chadw pobl yn ddiogel a gwnaethom ddatblygu gwasanaeth galw a chasglu o Lyfrgelloedd.
- Rydym wedi datblygu cynadleddau fforwm busnes hybrid a
- Chreu brand 'Conwy Ydym Ni' a rhaglen gyfathrebu dan arweiniad fideo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl.

Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad sicrwydd dros dro o'n hymateb Covid a ddaeth i'r casgliad eu bod wedi eu sicrhau bod ymateb parhaus y cyngor i effaith y pandemig wedi elwa ar drefniadau cynllunio gofalus, gwneud penderfyniadau a chyfathrebu'r Cyngor.

2.2. Sut y byddwn yn gwybod os ydym yn gwneud gwahaniaeth?

Cod mesurau	Teitl y Mesurau	Gwirioneddol 19/20	Targed 20/21	Gwirioneddol 20/21	Targed 21/22	CAG Perfformiad
M2.1	% y staff sy'n dechrau mewn swydd gyda dau dystlythyr	99.80	100.00	100.00	100.00	Gwyrdd
Dechreuodd 294/294 o bobl mewn swydd gyda dau dystlythyr						
M2.2	% y staff newydd a gyflogwyd sydd â gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (lle bo angen).	99.70	100.00	100.00	100.00	Gwyrdd
Cyflogwyd 246/246 o staff newydd â gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd lle bo angen						
M2.4a	% o staff sy'n derbyn hyfforddiant diogelu o fewn 12 mis o gychwyn yn y swydd	55.00	100.00	24.80	100.00	 Coch

Mae 77 allan o 311 o staff wedi derbyn hyfforddiant diogelu o fewn yr amserlen ofynnol (heb gynnwys data hyfforddi ysgolion). Oherwydd pandemig Covid-19 nid ydym wedi gallu cynnal hyfforddiant personol sydd wedi cyfyngu mynediad hyfforddiant diogelu i weithwyr rheng flaen.						
M2.4b	% o staff achlysurol sy'n derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu o fewn 6 mis o gychwyn yn y swydd.	Amh.	100.00	1.50	100.00	Coch
Mae 2 o 130 aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o fewn y cyfnod gofynnol. Oherwydd pandemig Covid-19 nid ydym wedi gallu cynnal hyfforddiant personol sydd wedi cyfyngu mynediad hyfforddiant diogelu i weithwyr rheng flaen. Mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru hyfforddi pob gweithiwr, fodd bynnag, gall gweithwyr achlysurol fod yn grŵp anodd ei hyfforddi. Mae gweithiwr achlysurol yn cael ei gyfrif fel rhywun yn ein cyflogaeth y gellir galw arno am waith ond nid oes unrhyw ofyniad i ni gynnig gwaith nac i'r unigolyn dderbyn unrhyw waith a gynigir. Mae gennym ni rai staff achlysurol sydd ddim ond yn gweithio ar gyfer digwyddiadau penodol, er enghraifft, Opera Cenedlaethol Cymru yn perfformio yn Venue Cymru ac eraill nad ydyn nhw mewn gwirionedd yn gwneud gwaith i ni. Felly nid yw gwasanaethau bob amser yn cael cyfle i hyfforddi gweithwyr achlysurol ac nid yw'n ariannol hyfyw hyfforddi pob gweithiwr achlysurol rhag ofn y byddant yn gwneud gwaith i CBSC.						
M2.4c	% o staff ysgol sy'n derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu o fewn 6 mis o gychwyn yn y swydd.	Amh.	100.00	0.00	100.00	Oren
Mae pob ysgol yn cwblhau modiwlau diogelu ar Hwb yn flynyddol. Mae ysgolion yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau'r rhain yn ôl yr angen ac yn defnyddio llyfr marcio yn Hwb i fonitro cydymffurfiad. Mae Penaethiaid yn adrodd am yr adborth hwn yn yr offeryn adolygu rheolaeth diogelu ysgolion sy'n cael ei werthuso gan yr Arweinydd Diogelu Addysg a fydd yn herio unrhyw ysgol sydd â chyfraddau cydymffurfio isel. Mae Penaethiaid hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw staff newydd yn cwblhau hyfforddiant diogelu yn y cyfnod sefydlu ac yn riportio hyn gyda'u harchwiliad diogelu. Mae pob Unigolyn Diogelu Dynodedig yn mynychu hyfforddiant diogelu uwch yn flynyddol gyda 98% o'r unigolion diogelu dynodedig yn mynychu ym Mehefin 21 ar gyfer yr hyfforddiant gorfodol Gofyn a Gweithredu. Disgwylir i'r 2% na fynychodd fynychu'r cynnig hyfforddi Gofyn a Gweithredu nesaf. Rhennir diweddariadau diogelu rheolaidd ag ysgolion ac mae hyn wedi parhau trwy gydol y pandemig Covid 19, ond ni chwblhawyd casglu data hyfforddi yn ystod y cyfnod hwn oherwydd bod blaenoriaethau a chanllawiau ychwanegol yn cael eu rhannu ag ysgolion gan Lywodraeth Cymru.						
M2.4d	% o staff cefnogi ysgol sy'n derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu o fewn 6 mis o gychwyn yn y swydd.	Amh.	100.00	0.00	100.00	Oren
Gweler yr eglurhad o dan M2.4c						
M2.4e	% o gyfanswm y staff (pob grŵp) sy'n derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu o fewn 6 mis o gychwyn yn y swydd.	Amh.	100.00	22.80	100.00	Coch

Mae 24% o weithwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol o fewn y chwe mis cyntaf. Mae'r ffigur hwn yn 42% pan fyddwn yn eithrio staff mewn ysgolion. Mae cwblhau'r hyfforddiant hwn yn rhan o gyfnod prawf gweithwyr newydd a chyhoeddir nodyn i wasanaethau i'w atgoffa na ddylid cymeradwyo cyfnodau prawf nes bod yr holl ddysgu gorfodol wedi'i gwblhau.						
M2.5	% o Gynghorwyr newydd etholedig sydd wedi mynychu hyfforddiant diogelu gorfodol, fel y nodwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd	100.00	100.00	100.00	100.00	Gwyrdd
Mae'r holl Gynghorwyr wedi ymgymryd â'r hyfforddiant a nodwyd						
M2.6	Nifer o adroddiadau gan staff sydd wedi mynegi pryder ynghylch bobl ddiamddiffyn	1,324.00	Dim Targed	916.00	Dim Targed	Amh.
Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, trosglwyddodd Gofal Cymdeithasol eu system gwybodaeth cleientiaid o PARIS i WCCIS. Felly mae dwy set ddata wedi'u cyflwyno yn yr adroddiad hwn. Rhwng y cyfnodau rhwng 1 Ebrill 2020 a 23 Tachwedd 2020 cawsom gyfanswm o 916 o adroddiadau gan PARIS. Mae hyn yn cynnwys 43 o adroddiadau oedolion ac 873 o adroddiadau plant. Rhwng 24 Tachwedd 2020 a 31 Mawrth 2021 cawsom gyfanswm o 269 o adroddiadau diogelu yn WCCIS. Mae hyn yn cynnwys 9 o adroddiadau oedolion a 260 o adroddiadau plant. Fel rhan o'r casglu data hwn rydym wedi nodi bod angen gwneud rhagor o waith i adrodd yn gywir ar ddiogelu oedolion. Nid yw ffynhonnell yr adroddiad yn cael ei chofnodi ym mhob achos. Mae'n debygol iawn ein bod wedi tan-adrodd oherwydd y mater hwn. Mae Gofal Cymdeithasol yn parhau i wella eu system adrodd i sicrhau ein bod yn adrodd yn gywir ac yn hyderus.						

Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Hunanasesiad Gwirio Siwrnai Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Yn berchen ar ein huchelgais oherwydd ein bod yn estyn allan i sectorau eraill i wneud cynnydd a chydweithio ac mae gan staff y pŵer i weld diogelu fel busnes pawb i ddylanwadu ar newid.

Mae diogelwch a diogelu wedi parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor yn ystod y pandemig. Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol (BDC) a'r Rheolwyr Diogelu Dynodedig (DSM) wedi aros yn effro i risgiau posibl cyfnodau clo a'r effaith negyddol y gallai hyn fod wedi'i chael ar bobl ddiamddiffyn. Mae hyn wedi bod yn risg gan nad ydym wedi cael yr un lefelau o 'lygaid a chlustiau' yn y gymuned a rhoddwyd camau i liniaru hyn ar waith. Mae ein neges bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb wedi'i gynorthwyo gyda gwelliannau mewn adrodd am ddiogelu ac roedd yn anrhydedd clywed o'r cyfoeth o brofiad a dysg sydd gan Nazir Afzal i'w gynnig yn ein cynhadledd ar Gamfanteisio yn yr wythnos ddiogelu.

Mae ein ffocws ar ddiogelwch wedi bod o'r pwys mwyaf trwy'r pandemig. O ran cadw staff yn ddiogel fel na chawsom unrhyw seibiant wrth ddarparu gwasanaethau'n barhaus a darparu cyngor a chefnogaeth i'r cyhoedd i gadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru. Llwyddwyd i sefydlu amrywiaeth o wasanaethau newydd i gynorthwyo gyda hyn fel y gwasanaeth cyd-nerthu cymunedol, darpariaeth grantiau ar-lein a gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu ac mae'n braf nodi bod Archwilio Cymru yn dod i'r casgliad eu bod wedi'u sicrhau gan ein dull gweithredu.

Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y nodau lles?

Ein nod tymor hir yw ein bod fel cymunedau yn gwarchod y naill a'r llall a bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu. Mae'n bwysig nad yw cenedlaethau'r dyfodol yn edrych yn ôl ac yn meddwl y dylem ni fod wedi gwneud mwy er mwyn diogelu pobl. Mae'r canlyniad hwn yn cefnogi'r nodau lles Cymru gyfartal, Cymru iachach a chymunedau cydlynol.

Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae Diogelu'n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol gennym a byddwn yn gweithio i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn presenoldeb mewn hyfforddiant y mae'r pandemig wedi effeithio arno. Byddwn hefyd yn adolygu'r rheolaethau diogelwch a roddwyd ar waith gennym ar gyfer Covid ac yn ystyried pa agweddau y dylid eu cadw fel busnes fel arfer ar gyfer y dyfodol a lle y gallwn adlewyrchu a dysgu o'n gweithredoedd.

Canlyniad 3 - Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd

3.1. Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

Cod Gweithredu	Enw'r Cam Gweithredu	Perfformiad COG
A3.1	Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd da sy'n diwallu angen a nodwyd ac sy'n cynorthwyo i liniaru effaith diwygiadau cyfundrefn les Llywodraeth y DU.	Gwyrdd

Gan weithio mewn partneriaeth â'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghonwy, dyrannwyd £2,897,964 o raglen grant tai cymdeithasol 2020/21 (tanwariant o £467,036 oherwydd nad oedd un datblygiad ar y safle mewn pryd, cyn diwedd y flwyddyn ariannol). Mae'r rhaglen wedi ariannu 24 uned newydd yn llawn (gan gynnwys 6 uned ar y safle Penmaenhead sy'n eiddo i'r Cyngor) ac wedi ariannu'n rhannol 11 uned.

Sicrhawyd cyllid grant o £719,115 yn ystod 2020/21 i ddod â 27 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd fel tai fforddiadwy:
- £100,000 yn gyllid swm gohiriedig y Parc Cenedlaethol.
- £392,700 Cam 2 Cyllid digartrefedd rhan 1 Llywodraeth Cymru
- £176,415 Cam 2 Cyllid digartrefedd rhan 2 Llywodraeth Cymru
- £50,000 Cyllid eiddo gwag.

Defnyddiwyd cyllid y Parc Cenedlaethol i gefnogi 4 prynwr tro cyntaf; derbyniodd pob ymgeisydd grant o £25,000 i helpu gyda chostau adnewyddu pan wnaethant brynu eiddo gwag yn y Parc. Darparwyd 2/4 uned yn 2020/21 a bydd 2/4 uned yn cael eu darparu yn 2021/22.

Mae Cam 2 cyllid Digartrefedd rhan 1 Llywodraeth Cymru wedi cefnogi 4 landlord i ddod ag 20 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd ac yn gyfnewid byddant yn gosod yr eiddo i ymgeiswyr ar y gofrestr tai cymdeithasol ar gyfradd lwfans tai lleol ac yn ymuno â chynllun prydlesu preifat Conwy. Bydd pob uned yn cael ei darparu yn 2021/22.

Mae Cam 2 cyllid digartrefedd rhan 2 Llywodraeth Cymru wedi ariannu trosi gwely a brecwast gwag yn 3 uned hunangynhwysol 1 ystafell wely yn Llandudno. Bydd pob uned yn cael ei darparu yn 2021/22.

Mewn partneriaeth â Grŵp Cynefin mae'r cyllid eiddo gwag wedi cefnogi 2 brynwr tro cyntaf; derbyniodd pob ymgeisydd grant o £25,000 i helpu gyda chostau adnewyddu pan wnaethant brynu eiddo gwag. Darparwyd yr unedau yn 2020/21.

Yn ogystal â'r uchod, sicrhawyd £85,252 o gyllid swm ohiriedig Conwy i ariannu prosiect tai â chymorth i bobl ifanc ym Mae Colwyn, gan ddarparu cyfanswm o 6 uned. Dosbarthwyd yr unedau yn 2020/21.

A3.2	Gweithio gyda'n partneriaid i gryfhau ein gwasanaethau atal digartrefedd ymhellach	Gwyrdd

Mae'r ffocws eleni wedi bod ar yr ymateb brys i Covid ac felly mae unrhyw waith datblygu a gynlluniwyd wedi'i ddad-flaenoriaethu.

Mae ein hymateb i'r pandemig wedi gofyn am ddull partneriaeth cryf i sicrhau bod y rhai sydd wedi cael eu dwyn i lety wedi cael cefnogaeth briodol, sydd wedi gofyn am ymateb amlasiantaethol.

Yn yr ymateb cynnar gwnaed defnydd arloesol o gabanau hunangynhwysol i ddod â nifer o unigolion oddi ar y strydoedd a wnaed yn llwyddiannus mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau cymorth.

Ym mis Mehefin fe wnaethom ddatblygu ein Cynllun Digartrefedd Cyfnod a gwneud cais am refeniw a chyfalaf ychwanegol. Llwyddodd y Gwasanaeth i sicrhau £358,466 ar gyfer prosiectau refeniw a £802, 695 ar gyfer prosiectau cyfalaf. Roedd mwyafrif y refeniw ychwanegol i gomisiynu staff cymorth ychwanegol i sicrhau ein bod yn gallu cefnogi cartrefi mewn llety brys ond hefyd wrth iddynt symud i dai sefydlog.

Mae'r Prosiect Peilot Tai yn Gyntaf wedi bod yn dod yn ei flaen yn dda ac yn ddiweddar death y Prosiect Tai yn Gyntaf cyntaf i dderbyn Achrediad gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae 7 cleient o Gonwy yn cael eu cefnogi gan y Tîm Tai yn Gyntaf

Disgwylir am gyllid ar gyfer 2021/2022 gan Lywodraeth Cymru er mwyn parhau â'r prosiect. Mae'r Gwasanaeth wedi gweithio'n agos gyda landlordiaid cymdeithasol a phreifat a darparwyr cymorth i symud cymaint o aelwydydd ymlaen o lety dros dro i lety cynaliadwy. Yn ystod y misoedd nesaf bydd angen i'r Gwasanaeth ddatblygu ei gynllun ar gyfer cwrdd â nod Llywodraeth Cymru o drawsnewid yr holl ddull o ddarparu ar gyfer digartrefedd fel bod y rhai sy'n cyflwyno eu hunain fel digartref bob dydd yn profi system sy'n canolbwyntio ar atal go iawn; a lle mae hynny'n methu, fel y bydd yn achlysurol, mae digartrefedd yn brin, yn fyr ac nid yw'n cael ei ailadrodd. Yn hanfodol i hyn bydd newid tuag at fodel ail-gartrefu cyflym a fydd yn lleihau'r amser y mae aelwydydd yn ddigartref ac yn treulio amser mewn llety dros dro a fydd yn gofyn am fuddsoddiad mewn adnoddau ac yn adeiladu ar y dull partneriaeth sydd gennym ar hyn o bryd.		
A3.3	Cynyddu'r cyflenwad o dai priodol ar y farchnad agored sy'n diwallu'r angen a nodwyd.	Oren
Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai dim ond i gefnogi'r Cynllun Datblygu Tir Gwledig Wedi'i Adneuo (RLDP) sydd wedi'i ohirio tan ddiwedd 2021, y mae angen cwblhau Cydastudiaethau Argaeledd Tir Tai (JHLAS). Bydd y gwaith yn ailgychwyn ar ôl y sefyllfa COVID gyfredol hon gydag adroddiad yn cael ei ragweld yn Hydref 2021.		
A3.4	Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu cyflenwad ac ansawdd llety priodol yn y sector gofal annibynnol (e.e. cartrefi preswyl a gofal nyrsio)	Gwyrdd
Rydym wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r holl ddarparwyr ledled pandemig Covid ac wedi casglu gwybodaeth reolaidd am nifer y gwelyau gwag yn y sector. Mae Covid wedi cael effaith sylweddol ac rydym yn gweld nifer fawr o swyddi gwag yn codi mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio yng Nghonwy. Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n agos ac rydym wedi cael cyfarfodydd ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chyda'r darparwyr sydd wedi dioddef fwyaf i ymchwilio i'r rhesymau ac ystyried atebion a chefnogaeth. Er nad ydym bellach yn ystyried cynnydd yn y cyflenwad oherwydd effaith COVID, mae gwella ansawdd yn parhau i fod yn flaenoriaeth. O dan ganllawiau newydd mae'n ofynnol i ni gynhyrchu Asesiad Sefydlogrwydd y Farchnad yn 2021-22 a fydd yn asesu'r sefyllfa bresennol ac yn llywio ein strategaeth a'n gweithredoedd wrth symud ymlaen.		

3.2. Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cod y Mesurydd	Teitl y Mesurydd	Gwirioneddol 18/19	Targed 19/20	Gwirioneddol 19/20	Targed 20/21	Perfformiad COG
M3.1a (i)	Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd (wedi'u hariannu trwy Raglen Datblygu Tai Fforddiadwy Conwy) a ddarperir yn ôl maint a deiliadaeth - Cymdeithasol (gan gynnwys tai â chymorth i bobl ddiamddiffyn)	30.00	123.00	Dim data	123.00	Amh.
Dim data diwedd blwyddyn ar gael oherwydd effaith Covid						
M3.1a (ii)	Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd (wedi'u hariannu trwy Raglen Datblygu Tai Fforddiadwy Conwy) a ddarperir yn ôl maint a deiliadaeth - Canolradd (perchnogaeth / rhent cartref cost isel)	20.00	Dim Targed	Dim data	Dim Targed	Amh.
Dim data diwedd blwyddyn ar gael oherwydd effaith Covid						

M3.1b	Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a oedd gynt yn gartrefi gwag	6.00	Dim Targed	5.00	Dim Targed	 Gwyrdd
Nid yw'r mesur hwn yn cynnwys nifer yr unedau tai fforddiadwy a grëwyd o ganlyniad i drosi eiddo dibreswyl yn unedau preswyl. Byddwn yn ceisio ehangu diffiniad y mesur hwn i'w gynnwys ar gyfer adrodd yn y dyfodol.						
M3.1c	Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel % o'r holl unedau tai newydd yn ystod y flwyddyn	Dim data	30.00	Dim data	30.00	Amh.
Gweler cam gweithredu A3.3. Ni ellir darparu'r ffigur oherwydd oedi gydag Astudiaethau Argaeledd Tir ar y Cyd a COVID-19. Mae'r JHLAS yn cynnwys ymweliadau safleoedd â phob safle tai i bennu'r ffigur, na ellir ei ddarparu tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn.						
M3.1d	Cyfanswm yr unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn	Dim data	Dim Targed	Dim data	Dim Targed	Amh.
Gweler cam gweithredu A3.3. Ni ellir darparu'r ffigur oherwydd oedi gydag Astudiaethau Argaeledd Tir ar y Cyd a COVID-19. Mae'r JHLAS yn cynnwys ymweliadau safleoedd â phob safle tai i bennu'r ffigur, na ellir ei ddarparu tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn.						
M3.2a	Nifer yr ymgeiswyr am dai cymdeithasol ar y gofrestr tai cyffredin	1,083.00	Dim Targed	1,204.00	Dim Targed	Amh.
Ar ddiwedd y flwyddyn 20/21 roedd 1,204 o geisiadau ar y Gofrestr Tai Cyffredin. Mae hyn wedi cynyddu o 1,083 ar yr un pryd yn 2019-20.						
M3.2b	% yr achosion lle mae digartrefedd wedi'i atal	83.04	Dim Targed	Dim data	Dim Targed	Amh.
Nid yw'n bosibl cofnodi'r ffigur hwn yn gywir yn ystod 2020-21 oherwydd yn ystod anterth yr argyfwng roedd yn hanfodol bod pob achos o ddigartrefedd yn cael ei atal yn effeithiol i sicrhau nad oedd neb heb lety ac yn agored i Covid.						
M3.2c	Nifer o achosion digartrefedd sy'n agored	Amh.	Dim Targed	598.00	Dim Targed	Amh.
Mae hwn yn fesur newydd a adroddwyd am y tro cyntaf eleni i fonitro nifer yr achosion digartrefedd, gwnaethom adrodd am 618 ar hanner blwyddyn a 659 yn Chwarter 3 felly mae'r swm wedi gostwng ychydig ond yn dal i fod yn uchel.						
M3.2d	Nifer yr aelwydydd mewn llety dros dro ar ddiwedd y cyfnod	Amh.	Dim Targed	246.00	Dim Targed	Amh.
Y dadansoddiad o'r 246 yw 130 mewn Gwely a Brecwast, 2 mewn Llety â Chefnogaeth, 16 yn uniongyrchol gyda Landlordiaid y Sector Preifat a 98 gyda Phrydles gan Landlordiaid y Sector Preifat						
M3.3a	% o gartrefi marchnad newydd sy'n 1 neu 2 ystafell wely	Dim data	Dim Targed	Dim data	Dim Targed	Amh.
Dim data diwedd blwyddyn ar gael oherwydd effaith Covid						
M3.3b	% o gartrefi marchnad newydd sy'n 3 ystafell wely	Dim data	Dim Targed	Dim data	Dim Targed	Amh.
Dim data diwedd blwyddyn ar gael oherwydd effaith Covid						

M3.3c	% o gartrefi marchnad newydd sy'n 4+ ystafell wely	Dim data	Dim Targed	Dim data	Dim Targed		Amh.
Dim data diwedd blwyddyn ar gael oherwydd effaith Covid							
M3.4a	Nifer y gwelyau sector gofal annibynnol (e.e. cartref preswyl a gofal) yn y Sir	1,448.00	Dim Targed	1,454.00	Dim Targed		Amh.
Nid oes modd cymharu'r ffigur hwn â blynyddoedd blaenorol gan nad oedd pob cartref gofal wedi'i gynnwys o'r blaen.							
M3.4b	% newid gwelyau'r sector gofal annibynnol (e.e. cartrefi annibynnol a chartrefi nyrsio) yn y Sir	Dim data	3.70	Dim data	3.70		Amh.
Dim data diwedd blwyddyn ar gael oherwydd effaith Covid							
M3.4d	Nifer y bobl sydd ar restrau aros am gynlluniau gofal ychwanegol presennol Conwy	Dim data	80.00	Dim data	80.00	Amh.	Amh.
Oherwydd cyfyngiadau COVID newidiwyd y broses ar gyfer rheoli'r rhestr aros i adlewyrchu nad oedd asesiadau a lleoliadau newydd yn bosibl trwy gydol y rhan fwyaf o 20/21.							

Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Hunanasesiad Gwirio Siwrnai Lles Cenedlaethau'r Dyfodol – Arwain y Ffordd

Rydym yn arwain y ffordd fel sefydliad o ran rhai o'n camau ac yn gweithredu fel canllaw i eraill ein dilyn. Adlewyrchir hyn yn ein Prosiect Peilot Tai yn Gyntaf sy'n dod yn ei flaen yn dda ac yn ddiweddar hwn oedd y Prosiect Tai yn Gyntaf cyntaf i dderbyn Achrediad gan Lywodraeth Cymru.

Mae tai fforddiadwy yn parhau i fod yn her allweddol - yn enwedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda phrisiau tai yn cynyddu. Er ein bod yn ddibynnol iawn ar y farchnad, rydym wedi gwneud cynnydd rhagorol wrth ddefnyddio grantiau i gyflenwi unedau tai fforddiadwy eleni. Mae ein hymateb i'r pandemig wedi gofyn am ddull partneriaeth cryf y byddwn yn adeiladu arno. Rydym wedi gweithio'n galed i gefnogi darparwyr gofal trwy gydol heriau pandemig Covid gan sicrhau bod ganddynt yr help yr oedd ei angen arnynt. Fodd bynnag, mae nifer y gwelyau gwag mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio yng Nghonwy yn destun pryder ac mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n agos.

Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y nodau lles?

Trwy ganolbwyntio ar ddull strategol, rydym yn gobeithio cael y gymysgedd gywir o lety yn yr ardaloedd iawn er mwyn i bobl allu byw mewn cymunedau maent yn falch o'u galw'n gartref. Mae'r canlyniad hwn yn cefnogi'r nodau lles ar gyfer cymunedau cydlynol, Cymru gyfartal, Cymru iach a Chymru lewyrchus.

Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae'n anodd cwblhau dadansoddiad cyffredinol gyda pheth data ar goll ar gyfer eleni. Mae'r galw cynyddol am wasanaethau tai a digartrefedd yn dal i fod yn bwysau a chaiff hyn ei fonitro fel risg corfforaethol. Mae'r galw am dai cymdeithasol yn parhau i gynyddu, fodd bynnag nid yw hyn unigryw i Gonwy ac mae wedi ei waethygu gan y pandemig. Byddwn yn gweithio i weithredu'r argymhellion o adroddiad Archwilio Cymru - "Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb" a pharatoi ar gyfer nod Llywodraeth Cymru o drawsnewid yr holl ddull o ddarparu ar gyfer digartrefedd fel bod y rhai sy'n cyflwyno eu hunain fel digartref yn cael profiad o system sy'n canolbwyntio ar atal.

Canlyniad 4 - Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn egnïol

4.1. Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

Cod Gweithredu	Enw'r Cam Gweithredu	Perfformiad COG
A4.1	Datblygu modelau newydd i hybu iechyd a lles fel bod pobl o bob oed yn llai dibynnol ar iechyd a gofal cymdeithasol. Byddwn yn gwneud hyn trwy weithio ar y cyd ac edrych ar dueddiadau yn y dyfodol.	Gwyrdd

Bydd **Tir Afon,** prosiect mewn partneriaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru, yn gwella'r Cynllun Atgyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol yn Nyffryn Conwy, gan gynnig cyfleoedd gweithgaredd corfforol yn yr awyr agored a ddarperir gan y Tîm Datblygu Chwaraeon Gwledig. Rydym yn dal i aros am benderfyniad cyllido. Dywedwyd wrth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i fynd ymlaen are u risg eu hunain, ond ni allwn ddechrau recriwtio na chyflawni nes bod gennym gadarnhad o gyllid yn ysgrifenedig.

Aelodaeth Ffit Conwy ar gyfer rhai 11-15 oed
Ym mis Tachwedd 2019 lansiwyd aelodaeth Ffit newydd ar gyfer rhai 11-15 oed. Dyma ddemograffig sydd heb gael llawer o fynediad at ein cyfleusterau o'r blaen. Nod yr aelodaeth yw annog mwy o rai 11-15 i fod yn egnïol yn gorfforol. Rydym yn gobeithio hefyd y gallwn annog mwy o deuluoedd i ymarfer gyda'i gilydd gan fod gofyn i oedolyn oruchwylio'r rhai 11-15 oed mewn rhai dosbarthiadau ymarfer corff ac yn yr ystafell ffitrwydd. Cyn mis Mawrth 2020, roedd nifer yr aelodau iau yn tyfu'n gyson. Bydd gennym well ymdeimlad o gynnydd yn 2021-22 ar ôl i ganolfannau hamdden fod ar agor am gyfnod hirach.

Mae'r Tîm Lles Cymunedol yn cefnogi pobl hŷn yn Sir Conwy i'w helpu i achub ar gyfleoedd i hybu eu lles corfforol a meddyliol. Gallwch ddarllen mwy am eu rhaglen waith yma. Maent wedi addasu eu gwasanaeth i ddarparu darpariaeth ar-lein a darparu help i fynd ar-lein. Mae eu cefnogaeth yn cynnwys cyfeillio, bod yn egnïol, gwasanaeth galw a chasglu llyfrgell, garddio, canu, pobi ac ymwybyddiaeth ofalgar.

A4.2	Byddwn yn canolbwyntio ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac yn rhoi cefnogaeth i rieni drwy ddulliau amlasiantaeth.	Gwyrdd

Mae'r gweithgaredd hwn bellach wedi'i ymgorffori yn y gwasanaeth fel Busnes Fel Arfer ac rydym yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r cyllid grant sydd ar gael i ddarparu ystod o wasanaethau i blant, oedolion ac oedolion diamddiffyn.

Mae'r **panel amlasiantaeth Ar Ffiniau Gofal** bellach wedi'i ymgorffori'n llawn yn ein hymarfer ac yn cyfarfod bob wythnos. Mae CAMHS, canolfannau teulu, gwasanaethau ieuenctid, y Tîm Ymyrraeth Teulu a'r Tîm Cryfhau Teuluoedd yn ymrwymo'n rheolaidd. Lle bu'n rhaid gwneud hynny rydym wedi cynnwys cyfiawnder ieuenctid, addysg, Kite, Tai a'r Heddlu. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i ddarparu gwasanaeth cydlynol. Nid yw pob trafodaeth yn y Paneli Ar Ffiniau Gofal yn arwain at atgyfeiriadau i'r tîm Cryfhau Teuluoedd wrth i asiantaethau eraill ysgwyddo cyfrifoldebau i ddarparu ymyriadau. Trwy'r panel hwn rydym yn ystyried cryfderau teuluoedd fel mater o drefn wrth ystyried a ydynt wedi profi unrhyw brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae ymarferwyr yn adrodd bod Ar Ffiniau Gofal yn brofiad cadarnhaol sy'n rhoi mwy o hyder iddynt yn eu harferion. Mae ymarferwyr hefyd yn adrodd bod y broses Ar Ffiniau Gofal yn hwyluso gweithio amlddisgyblaethol mwy effeithiol.

Panel Ymyrraeth Cynnar

Bu galw cynyddol gan y canolfannau teulu i geisio cyrchu gwasanaethau gofal a reolir. Er mwyn ymateb i hyn, mae'r cydlynydd ar ffiniau gofal a'r Rheolwr Tîm yn darparu paneli ymgynghori amlasiantaeth ymyrraeth gynnar unwaith y mis. Mae'r un garfan o bobl yn mynychu gan ychwanegu swyddog ar ddyletswydd o ofal wedi'i reoli. Pwrpas y cyfarfodydd hyn yw canolbwyntio ar sut i gefnogi teuluoedd sydd ar drothwy mynd i mewn i wasanaethau gofal a reolir. Mae hefyd yn gyfle i ystyried a fyddai rhai teuluoedd yn elwa o'r broses gofal a reolir. Trwy'r panel mae mentora wedi uwchsgilio gweithwyr canolfannau teulu a'u galluogi i barhau i reoli'r achos heb fod angen cynllun gofal a chymorth. O ganlyniad, mae rhai achosion wedi'u hatal rhag mynd drwodd i wasanaethau gofal a reolir.

Mae'r **Tîm Cryfhau Teuluoedd a'r Tîm Ymyrraeth Teulu** yn gweithio gyda rhieni a phlant y mae profiadau niweidiol plentyndod yn effeithio arnynt yn ddyddiol gan ddarparu ymyriadau therapiwtig sy'n mynd i'r afael â'u hamgylchiadau unigol. Mae'r pum Tîm Cymorth i Deuluoedd i gyd yn cynnig amserlen wythnosol o weithgareddau ar bedair lefel wahanol:

• Grwpiau mynediad agored - a ddarperir yn aml mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill fel iechyd, a'r trydydd sector
• Gwybodaeth, cyngor a chymorth - gan gynnwys atgyfeiriadau at sefydliadau eraill a chydweithio â nhw
• Gwaith grŵp wedi'i dargedu (rhaglenni magu plant) - weithiau'n cael ei ddarparu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, fel CDC, Iechyd, y trydydd sector
• Cefnogaeth un i un gan Weithwyr Teulu, sy'n cynnwys cyfarfodydd amlasiantaeth lle bo angen.

Mae'r **model Cefnogi Teuluoedd** yn parhau i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal drwy ddulliau amlasiantaeth. Mae'r pump Tîm Cefnogi'r Teulu i gyd yn cynnig amserlen wythnosol o weithgareddau. Mae pob tîm ardal yn darparu:

- Gwasanaethau Cam-drin Domestig (a ddarperir drwy wasanaeth wedi ei gomisiynu)
- Teulu wedi chwalu: Cymorth gyda pherthynas teuluoedd, a Chwnsela Teulu (a ddarperir drwy wasanaeth a gomisiynir)
- Mynediad at gymorth iechyd meddwl
- Mynediad at gymorth mewn profedigaeth
- Camdriniaeth: Llwybrau clir i sicrhau cymorth i deuluoedd gaiff eu heffeithio gan gamdriniaeth; cyrsiau rhianta cadarnhaol a chefnogaeth un i un
- Creu cydnerthedd: Mae'r Proffil Lles Teulu yn arf cydweithredol gyda phwyslais ar alluogi teuluoedd a chynyddu cydnerthedd; grwpiau mynediad agored a chymorth i gyfoedion – i greu cymunedau cydnerth; hyrwyddo'r 5 Ffordd at Les

Rhestrir dadansoddiad o'r canlyniad hwn isod • Gwasanaeth Archifau - 30,894 • MOSTYN - 9,788 (cyfranogiad digidol) • Dawns i Bawb - 3102 (perfformiadau ar-lein 3030 + 72 presenoldeb mewn hyfforddiant) • Diwylliant - 14,986 (ymgysylltu digidol) • Dychmygwch - 4,226 (ymgysylltu digidol / Facebook Live) • Venue Cymru - Dim Data • Theatr Colwyn – Dim Data • Llyfrgelloedd - 202,096 (Gwnaethom gynyddu ein buddsoddiad yng nghynnig digidol llyfrgelloedd yn ystod y cyfnodau clo. Mae ein gweithgareddau digidol wedi cyrraedd pobl y tu allan i Gonwy.) Cyfanswm: 265,092					

Cod y Mesurydd	Teitl y Mesurydd	Gwirioneddol 18/19	Targed 19/20	Gwirioneddol 19/20	Targed 20/21	Perfformiad COG
M7.3a	% swyddi 'Cymraeg yn Hanfodol a lenwyd gan siaradwr Cymraeg	Amh.	Dim Targed	90.72	Dim Targed	Amh.
Mae 88 o'r 97 o swyddi a hysbysebwyd wedi'u llenwi gan siaradwyr Cymraeg - mae 9 swydd sy'n dal i fynd trwy'r broses recriwtio ar hyn o bryd						
M7.3b	Nifer y staff sy'n manteisio ar y cynnig hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle.	Amh.	Dim Targed	48.00	Dim Targed	Amh.
M7.3c	% achosion o 'siopwyr cudd' Cymraeg a arweiniodd at gydymffurfiad â safonau'r Gymraeg.	Amh.	90.00	0.00	90.00	Amh.
Ni chynhaliwyd unrhyw archwiliadau yn 2020-2021 oherwydd y pandemig covid. Maent wedi ail-ddechrau yn 2021-22.						
M7.3d	% y staff yng ngwasanaethau'r Cyngor sy'n gallu siarad Cymraeg (ac eithrio athrawon ysgol a staff mewn ysgolion) - fesul adran gwasanaeth	Amh.	Dim Targed	31.00	Dim Targed	Amh.
M7.3e	% y staff sy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg	Amh.	Dim Targed	47.00	Dim Targed	Amh.
M7.3f	% y staff sydd â dim sgiliau Cymraeg	Amh.	Dim Targed	22.00	Dim Targed	Amh.
M7.4a	% y disgyblion meithrin a Derbyn sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg fel yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion	25.20	Dim Targed	25.72	Dim Targed	Amh.
M7.4b	% y disgyblion ysgolion cynradd sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg (fel yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion)	22.30	Dim Targed	24.15	Dim Targed	Amh.
M7.4c	% o blant ysgolion cynradd mewn addysg cyfrwng Cymraeg sy'n mynd i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg	86.25	Dim Targed	86.01	Dim Targed	Amh.
M7.5b	Nifer o ddigwyddiadau i hyrwyddo'r Gymraeg / codi ymwybyddiaeth a gynhelir mewn cydweithrediad â'n partneriaid	429	Dim Targed	110.00	Dim Targed	Amh.
Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau corfforol oherwydd y pandemig a'r cyfyngiadau ar weithgareddau. Parhaodd a chynyddodd gweithgareddau a digwyddiadau digidol. Roedd ein 12 diwrnod o ddarlleniadau barddoniaeth Nadolig ar Facebook ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac roedd 74 o amseroedd stori Cymraeg ar gael yn ddigidol yn ystod cyfnod clo Ionawr-Mawrth, prosiect gyda'r Canolfannau Teulu.						

Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Hunanasesiad Gwirio Siwrnai Lles Cenedlaethau'r Dyfodol – Arwain y Ffordd

Mae ein gweithredoedd yn dangos ein bod yn datblygu mentrau newydd ac mae mwy o bobl yn cymryd rhan. Rydym yn arwain y ffordd trwy ddatblygu nodau uchelgeisiol trwy gyflwyno mynegiant o ddiddordeb i fod yn Ddinas Diwylliant ar gyfer 2025.

Bydd ailstrwythuro a ffurfio'r gwasanaeth Economi a Diwylliant yn cynorthwyo ein huchelgais i sicrhau bod diwylliant a'r Gymraeg yn ffynnu. Datblygwyd Mynegiant o ddiddordeb mewn cydweithrediad â grŵp o bobl ysbrydoledig amlasiantaethol. Mae gennym hefyd grŵp rhaglennu creadigol o 20 o artistiaid a phobl greadigol sy'n llunio ein syniadau rhaglennu.

Rydym wedi gwneud cynnydd da i ddrafftio ac ymgynghori ar ein cyfeiriad yn y dyfodol ar gyfer ein Strategaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth a'n Strategaeth Ddiwylliannol Creu Conwy. Gwnaethom addasu ein cynnig digwyddiad diwylliant yn llwyddiannus ac roedd presenoldeb da i weithgareddau ar-lein. Mae recriwtio Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg wedi cael effaith gadarnhaol ar allu'r tîm iaith i gefnogi pobl yn eu hymdrechion i ddysgu Cymraeg. Mae'r Grŵp Llywio'r Gymraeg newydd yn darparu trosolwg a chefnogaeth gorfforaethol i gyflawni ein hamcanion Cymraeg.

Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y nodau lles?

Bydd ein treftadaeth gyfoethog wedi cael ei diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a bydd modd i bob rhan o gymdeithas gael mynediad i'r celfyddydau i wella eu lles. Bydd siarad Cymraeg yn rhan o fywyd bob dydd ym mhob cymuned. Mae'r canlyniad hwn yn cefnogi'r nodau lles ar gyfer cymunedau cydlynol, diwylliant a'r Gymraeg, Cymru gyfartal, Cymru iach a Chymru lewyrchus.

Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae cyrraedd targed o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg yn nod tymor hir a byddwn yn parhau i roi trefniadau ar waith i gefnogi'r nod Cymru gyfan hwn. Wrth i bwysau Covid leddfu, byddwn yn ailgychwyn y siopwr cudd Cymraeg ac yn parhau i geisio cyllid i fodloni Safonau Llyfrgell Cymru. Pe bai ein mynegiant o ddiddordeb yn cael ei dderbyn, byddwn yn gweithio i ddatblygu cam nesaf ein cais Dinas Diwylliant, ond waeth beth fydd y canlyniad, mae gennym gynllun uchelgeisiol i'w weithredu trwy Strategaeth Ddiwylliannol Creu Conwy.

Canlyniad 8 – Mae pobl yng Nghonwy'n cyfrannu i'w cymuned. Maent yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais

8.1. Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

Cod Gweithredu	Enw'r Cam Gweithredu	Perfformiad COG
A8.2	Byddwn yn adolygu sut rydym yn ymgysylltu â chymunedau yn arbennig cynghorau tref a chymuned ac yn sicrhau bod pob cymuned yn cael cyfle i fod yn rhan o ddatblygu gwasanaethau gwytnwch.	Gwyrdd

Rhwng Hydref 2019 a Hydref 2020 mae'r Tîm Gwledig wedi gwneud llawer iawn o waith yn ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned. Prif elfen y gwaith oedd gweithio gyda nhw i ddarparu gwasanaethau a allai fod mewn perygl, ac o bosibl praeseptio rhai o'r costau neu eu darparu'n wahanol. Er nad oedd gwerth arian parod yr ymarfer yn enfawr, fe wnaeth ein galluogi i ddod i adnabod y Cyngor Tref neu Gymuned yn well ac iddynt ddeall y pwysau cyllidebol yr ydym yn eu hwynebu. Roedd yn anffodus bod y pandemig wedi gohirio peth o'r gwaith hwn wrth i adnoddau gael eu hail-flaenoriaethu.

Fodd bynnag, 'marathon ac nid sbrint' yw'r daith hon a byddwn yn parhau i ymgysylltu wrth symud ymlaen a thrafod opsiynau o ran praeseptio ar gyfer 2021/22.

Rydym wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r strategaeth ymgysylltu a chynnal hyfforddiant i addasu i ymgysylltu ar-lein. Rydym wedi cwblhau EQIA ar gyfer y prosiect Doethwaith ac ar hyn o bryd yn cynnal arolwg economaidd-gymdeithasol.

Rydym wedi cynnal ymarfer mapio ymgysylltu yng Ngogledd Cymru i ddarganfod themâu allweddol yr holl bartneriaid o waith ymgysylltu diweddar ac rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i ystyried barn y 'rhai nas clywir yn aml' ond mae hwn yn faes heriol. Rydym wedi dechrau gweithio gyda chyd-gynhyrchu Cymru trwy'r rhwydwaith BGC rhanbarthol i wella ymgysylltiad ar lefel ranbarthol.

Rydym wedi cefnogi ymgynghoriad ar-lein gyda phartneriaid, ysgolion a rhieni ynghylch gwasanaethau addysg a'r modelau cyllido.

Rydym wedi cynyddu ymgysylltiad â dilynwyr cyfryngau cymdeithasol oherwydd bod Conwy yn cael ei ystyried yn ffynhonnell y gellir ymddiried ynddo. Roedd y cylchlythyr Cefnogaeth Cymunedol a aeth i bob cartref yn ystod Covid yn gam cadarnhaol dros ben.

Mae Tîm Marchnata Venue Cymru wedi bod yn cadw mewn cysylltiad â'u sylfaen cwsmeriaid trwy arolygon rheolaidd a galwadau ffôn. Mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi helpu i hysbysu'r tîm rheoli gyda'r mewnwelediadau ar sut yr hoffai cwsmeriaid weld gwybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Rydym wedi ymgysylltu â grwpiau diddordeb amgylcheddol a'r Cyngor Ieuenctid ynghylch ein targedau Datgarboneiddio ac yn bwriadu cyflawni sero net carbon erbyn 2030. Fel rhan o'r Rhaglen Her Hinsawdd, mae fforwm ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i sefydlu i rannu gwybodaeth ac arfer da gyda'n rhanddeiliaid cymunedol fel rhan o'n nod i gyflawni sero net carbon a lliniaru newid yn yr hinsawdd.

Mae gweithdai rhanddeiliaid wedi cael eu cynnal fel rhan o'n prosiect i ddatblygu Cynllun Ynni Ardal Leol ar gyfer Sir Conwy. Mae rhanddeiliaid wedi helpu i osod yr amcanion a'r targedau i lunio a chyflawni'r cynllun hwn.

Rydym yn ymgynghori â'n cymunedau a'n rhanddeiliaid allweddol yn y cynlluniau gwella seilwaith ac amgylcheddol a ddarparwn, ac yn ymgorffori eu hadborth, lle bo hynny'n berthnasol, yn y gwelliannau.

Comisiynodd Datrysiadau Tai Conwy brosiect Cymryd Sylw Shelter Cymru i gynnal prosiect ymchwil yn ystod haf 2020 ynghylch yr ymateb i'r pandemig a sut y byddai pobl eisiau cyflwyno eu hunain i ni fel digartref a sut roedd defnyddwyr gwasanaeth wedi gweld cyflwyno eu hunain o bell yn ystod yr amser hwn. Roedd hefyd yn edrych ar sut roedd staff wedi ymdopi a beth hoffent ei weld. Roeddem am i hyn gael ei wneud er mwyn i ni ddeall a oeddem yn diwallu anghenion ein cymunedau wrth weithio gartref a'r swyddfeydd ar gau. Cynhyrchwyd dogfen a chanllaw gan Shelter Cymru ym mis Ionawr 2021.

A8.3	Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn gwneud yr wybodaeth a rannwn yn berthnasol ac yn fwy hygyrch a gwydn	Gwyrdd

Rydym wedi penodi Golygydd Cynnwys Digidol a fydd yn cefnogi gwasanaethau i wneud tudalennau gwe yn hawdd eu darllen ac yn hygyrch.

Mae prosiect hygyrchedd Gwe i gefnogi hygyrchedd cynnwys digidol ar draws y Cyngor ar waith ac mae cynnwys y wefan wedi'i adolygu a'i addasu yn unol â hynny. Mae aelod o'r Fforwm Nam ar y Golwg wedi cwblhau profion cwsmer ar y wefan a gwnaed newidiadau yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd.

A8.4	Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol a sianeli digidol i ddarparu mynediad mwy effeithiol ac effeithlon at wasanaethau.	Gwyrdd

Trwy ein rhaglen foderneiddio roeddem eisoes yn symud i ffyrdd mwy digidol o weithio ond o ganlyniad i Covid 19 rydym wedi gallu ymateb yn gyflym i gynyddu'r ddarpariaeth ddigidol a hefyd edrych ar ddarpariaeth gwasanaeth digidol parhaus ar ôl covid.

Yn ystod 2020 a 2021 symudodd llawer o wasanaethau ar-lein gyda llawer o adborth cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys:
• Nodi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol ac ail-bwrpasu dyfeisiau i gael mynediad at ddysgu ar-lein.
• Datblygu dysgu ar-lein i gefnogi addysgu gartref - (79.4k barn)
• Gwasanaethau yn cadw mewn cysylltiad â chleientiaid, cwsmeriaid a'r cyhoedd trwy gyfarfodydd Zoom/ Teams a Skype.
• Dod o hyd i ffyrdd gafaelgar i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu dadrithio
• Ail-frandio ac addasu Ffit Conwy gyda sesiynau ymarfer ar-lein ac awgrymiadau ymarfer corff
• Cychwyn pantomeim ar-lein a'i ffrydio i ysgolion a theuluoedd
• Gwnaethom ddefnyddio technoleg i liniaru risg, gan awtomeiddio swyddogaethau graeanu mewn wagenni fel y gallent gael eu gyrru gan staff anarbenigol.
• Ni oedd yr Awdurdod cyntaf yng Ngogledd Cymru i ddarparu pwyllgorau yn rhithiol â chyfieithu ar yr un pryd i'r Gymraeg.
• Gwnaethom ddatblygu cefnogaeth ar-lein i bobl hŷn i hybu lles
• Gwnaethom uwchgyfeirio ein Gwasanaeth Cymorth Busnes, gan ateb dros 10,000 o alwadau a phrosesu 3045 o geisiadau grant.
• Ni oedd y cyngor cyntaf yng Nghymru i symud cyfarfodydd Cynllunio ar-lein er mwyn osgoi oedi

A8.5	Byddwn yn gweithio gyda chymunedau, darparwyr cludiant a phartneriaid eraill i gynnal adolygiad sylfaenol o gludo'r cyhoedd a mynediad i wasanaethau. Byddwn yn treialu opsiynau amgen arloesol	Gwyrdd

Mae adroddiad Cludiant Cymunedol Gofal Cymdeithasol, ar gyfer parhad gwasanaethau cyfredol, yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd.
Cyflwynwyd adroddiad i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ynghylch cynnydd gwasanaeth Cludiant Ymatebol Integredig Dyffryn Conwy (IRT), a aeth yn fyw ym mis Tachwedd 2020. Gwasanaeth bysiau ar alw yw IRT, sy'n caniatáu i deithwyr ofyn am fws i'w codi ar gyfer teithio hanfodol. Mae'r prosiect yn rhan o wasanaeth 'Fflecsi' newydd Trafnidiaeth Cymru, sydd â'r nod o wella mynediad at gyflogaeth.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus cenedlaethol.

A8.6	Byddwn yn anelu at gyflawni a chynnal statws 'Gweithio Tuag at Ddementia-Gyfeillgar' fel yr achredwyd gan y Gymdeithas Alzheimers	Oren

Mae bwrdd llywio wedi'i sefydlu ac roedd yn cyfarfod yn rheolaidd cyn i'r pandemig daro. Roedd amryw Adrannau o bob rhan o'r cyngor yn bresennol yn rheolaidd. Yn ddiweddar fe wnaethom gyflwyno ein cais i ddod yn sefydliad sy'n gyfeillgar i ddementia i'r Gymdeithas Alzheimers gyda'r dystiolaeth o'r cynnydd a wnaed hyd yma ac rydym yn aros am eu hymateb.

A8.7	Byddwn yn parhau i weithredu ar gyflwyno'r Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol (LFFN) ar draws safleoedd sy'n eiddo i Gonwy a lle bo hynny'n bosibl yn ceisio cefnogi / dylanwadu ar ddarparwyr allanol y tu hwnt i'n rheolaeth i roi'r LFFN ar waith.	Oren

Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar gynnydd y prosiect hwn. Rydym wedi adolygu amserlenni ac mae'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau wedi'i ddiwygio i Medi 2021. Mae safleoedd Conwy a gomisiynwyd yn llawn yn isel ar hyn o bryd ac mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi herio BT. Mae BT wedi cynnig sicrwydd y bydd pob safle'n cael ei gomisiynu erbyn y dyddiad cau diwygiedig.

Mae 7 o'r 41 safle sydd wedi'u clustnodi ar gyfer gosodiadau LFFN bellach wedi'u actifadu'n llawn. Mae BT yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddyddiad cau Medi 2021 ac er ein bod yn credu y bydd hyn yn anodd iddynt ei gyflawni, rydym yn dal yn obeithiol bod eu hadroddiadau o fod ar y trywydd iawn ar gyfer mwyafrif y gosodiadau yn gywir.

8.2. Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cod y Mesurydd	Teitl y Mesurydd	Gwirioneddol 18/19	Targed 19/20	Gwirioneddol 19/20	Targed 20/21	Perfformiad COG
M8.2	% y trigolion sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (Arolwg Cenedlaethol Cymru)	Amh.	Dim Targed	Amh.	Dim Targed	Amh.
Dim arolwg diweddar gan Lywodraeth Cymru						
M8.2a	Nifer y cwynion a gafwyd	317.00	Dim Targed	306.00	Dim Targed	Amh.
Cyfanswm y cwynion ar gyfer 20/21 oedd 306, 11 yn llai nag yn 19/20. Fodd bynnag, mae 2 wasanaeth mawr wedi bod ar gau am y flwyddyn gyfan neu'r mwyafrif ohoni, gydag adnoddau'n cael eu hailgyfeirio i gefnogi yn erbyn covid, a fyddai'n dangos bod gweddill y gwasanaethau wedi derbyn nifer uwch o gwynion na'r flwyddyn flaenorol. Gellid priodoli hyn i gofnodi "anfodlonrwydd cwsmeriaid" yn well yn dilyn gwaith ychwanegol ar hyfforddiant.						
M8.2c	Nifer y canmoliaethau	289.00	Dim Targed	337.00	Dim Targed	Amh.
Derbyniwyd 337 canmoliaeth am y flwyddyn sy'n welliant sylweddol ar y flwyddyn flaenorol.						
M8.2d	Nifer y Cwynion Corfforaeth a gafwyd ac a gadarnhawyd	Amh.	Dim Targed	160.00	Dim Targed	Amh.
Cadarnhawyd 160 o gwynion allan o 306 o gwynion a dderbyniwyd. Gellir dod o hyd i'r adroddiad blynyddol ar ganmoliaeth a chwynion yma						
M8.5	% y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd / gael mynediad at y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. (Arolwg Cenedlaethol Cymru)	Amh.	Dim Targed	Amh.	Dim Targed	Amh.
Dim arolwg diweddar gan Lywodraeth Cymru						
M8.6	Lefel gwasanaeth 4g/5g ar draws y Sir	Amh.	Dim Targed	Amh.	Dim Targed	Amh.
Ar hyn o bryd yn adolygu ffynonellau data i gadarnhau lefelau gwasanaeth 4g / 5g yng Nghonwy.						

Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Hunanasesiad Gwirio Siwrnai Lles Cenedlaethau'r Dyfodol – Perchnogi ein Huchelgais

Rydym yn cymryd risgiau sydd wedi'u rheoli'n dda, yn estyn allan i sectorau eraill ac yn cydweithio ar gyllido a staffio. Caiff staff eu grymuso i weithio ar draws sectorau a dylanwadu newid.

Mae perthnasoedd cydweithredol da ar waith gyda Chynghorau Tref a Chymuned ac mae cyfoeth o gyfle inni adeiladu ar hyn i wella gwasanaethau a arweinir gan y gymuned. Mae'r adolygiad o'r wefan i sicrhau ei bod yn hygyrch wedi symud ymlaen yn dda ac mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig yng ngoleuni'r angen cynyddol am gyfathrebu digidol yn ystod cyfnodau clo. Rydym yn falch ein bod wedi gallu addasu ein darpariaeth ar-lein mor gyflym i sicrhau bod preswylwyr a busnesau wedi gallu

cael gafael ar grantiau cymorth covid. Rydym wedi cynyddu ein presenoldeb cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol yn sylweddol i sicrhau bod fideos, negeseuon a diweddariadau Covid yn cael eu cylchredeg cyn gynted â phosibl.

Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y nodau lles?

Drwy wella'r ffordd rydym yn gweithio gyda chymunedau, byddwn yn galluogi pobl i chwarae rhan weithredol yn yr hyn sy'n digwydd ynddynt. Mae'r canlyniad hwn yn cefnogi'r nodau lles ar gyfer cymunedau cydlynol, Cymru gydnerth, Cymru gyfartal, Cymru iach a Chymru lewyrchus.

Meysydd i'w gwella / datblygu

Rydym nawr yn cychwyn y sgwrs ymgysylltu i wrando ar syniadau cymunedol am yr hyn y dylem ganolbwyntio arnynt yn ein Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2022-2027. Bydd gweithdai ymgysylltu ac arolwg ar-lein yn cael eu cynnal ym mis Medi a mis Hydref a bydd cynllun drafft yn barod i ymgynghori arno yn gynnar yn 2022. Byddwn yn parhau i ehangu ein dull rhanbarthol o ymgysylltu â'r gymuned ac yn benodol, gan sicrhau ein bod yn cael safbwyntiau oddi wrth ystod amrywiol o bobl.

Canlyniad 9 – Mae Cyngor Conwy yn wydn (Effeithlon)

9.1. Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

Cod Gweithredu	Enw'r Cam Gweithredu	Perfformiad COG
A9.1	Byddwn yn manteisio ar ddatblygiadau mewn technoleg i drawsnewid y ffordd y mae ein staff yn cyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd, gan edrych ar yr offer maen nhw'n eu defnyddio yn ogystal â'r cyfleusterau a'r lleoliadau lle maen nhw'n gweithio	Gwyrdd
Mae gwaith parhaus y Rhaglen Adnewyddu yn sicrhau bod Gwasanaethau CBSC a safleoedd swyddfa yn gweithredu'n ddiogel (wrth barhau yng nghanol pandemig) a bod yr holl Wasanaethau yn adolygu ac yn trawsnewid darparu i'r cwsmer yn y ffyrdd mwyaf diogel ac effeithlon. Un o'r prif brosiectau o dan y Rhaglen Adnewyddu yw Doethwaith 2020 ac mae hyn yn canolbwyntio ar sut y bydd y Cyngor yn gweithredu yn ei swyddfeydd yn y dyfodol. Mae prosiect Doethwaith 2020 yn adeiladu ar weithrediad gwreiddiol Doethwaith ac ar hyn o bryd yn ystyried sut y gall technoleg gefnogi modelau darparu gwasanaeth wedi'u trawsnewid ar gyfer y dyfodol. Mae enghreifftiau o dechnoleg / meddalwedd sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd o dan Doethwaith 2020, sy'n cefnogi trawsnewid gwasanaethau, yn cynnwys: - technoleg cyfarfod hybrid ar gyfer y Gwasanaethau Democrataidd fel y gellir cynnal cyfarfodydd Pwyllgor wyneb yn wyneb ac ar-lein ar yr un pryd; - meddalwedd post hybrid fel y gellir digideiddio, argraffu, plygu popeth sy'n mynd allan i amlenni a'i ffrancio heb yr angen am ymyrraeth ddynol - Microsoft Teams yn cael ei weithredu ar draws yr Awdurdod i gefnogi gwell cyfarfodydd ar-lein Y prosiect arall o fewn y Rhaglen Adnewyddu yw'r prosiect Adnewyddu Gwasanaeth ac mae hyn yn canolbwyntio ar gefnogi gwasanaethau i 'ailagor' yn dilyn cyfnod clo. Mae darparu gwasanaeth i gwsmeriaid ar ôl y cyfnod clo ac yng ngoleuni Covid-19 yn wahanol iawn i sut yr oedd o'r blaen ac mae systemau / technoleg newydd bellach ar flaen y gad wrth ddarparu i gwsmeriaid. Enghreifftiau o hyn yw sicrhau bod pob apwyntiad ailgylchu o gartrefi yn cael ei archebu ar-lein, bod ffurflenni derbyn ysgol yn cael eu digideiddio'n llwyr a bod apwyntiadau llyfrgell hefyd yn cael eu harchebu ar-lein. Mae Bwrdd Cyfleoedd Conwy yn parhau i fonitro ac adolygu'r holl Raglenni a phrosiectau arwyddocaol sydd ar waith ar draws yr Awdurdod ac yn dod â phrosiectau newydd ar-lein sy'n cefnogi arloesedd pellach a gwelliant parhaus.		
A9.2	Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid tuag at ddull cydweithredol rhanbarthol	Gwyrdd
Mae'r Awdurdod yn bartner gweithredol mewn nifer o bartneriaethau rhanbarthol ac isranbarthol, gan gynnwys Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Partneriaeth Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol, Prosiect Gwastraff Gweddilliol Rhanbarthol, cynllun gwastraff bwyd isranbarthol, a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r ymateb cydweithredol i effaith goffaol Covid-19 wedi dangos cryfder cydweithredu ar draws y rhanbarth a'r hyn y gellir ei gyflawni pan fyddwn yn gweithio tuag at achos cyffredin. Bydd ein dull o adfer yn anelu at adeiladu ar y rhwydweithiau a'r perthnasoedd cryfach a ffurfiwyd yn ystod yr amser hwn o adfyd.		
A9.3	Byddwn yn monitro effaith Brexit fel ein bod yn ddigon parod ar gyfer goblygiadau'r DU yn gadael yr UE	Gwyrdd
Trafododd Llywodraeth y DU fargen gyda'r UE ar Noswyl Nadolig, a gadawodd y DU yr UE ar 31/12/20. Rydym yn parhau i fonitro ac adolygu effeithiau Brexit ar ein busnesau a'n cymunedau tra ein bod mewn cyfnod trosglwyddo. Mae'r Prif Swyddog Ewropeaidd yn parhau i fynychu cyfarfodydd Pontio UE a gynhelir gan CLlLC, ac mae'n parhau i anfon gwybodaeth berthnasol i'n Gwasanaethau.		
A9.4	Byddwn yn parhau i ddatblygu a chefnogi ein staff	Gwyrdd

Mae Hyfforddiant Corfforaethol wedi parhau i ddarparu cynnig hyfforddiant i weithwyr yn ystod y cyfnod clo gydag 80% o'n dysgu yn symud i ddarpariaeth ar-lein. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad oes gan bob gweithiwr fynediad at ddysgu o bell a bydd angen cynnig cyfle wyneb yn wyneb pan fydd cyfyngiadau'n cael eu lleddfu.
Mae Hyfforddiant Corfforaethol hefyd wedi cymryd rhan weithredol mewn ymarfer ymgynghori yn ymwneud â'r platfform Dysgu@Cymru ar-lein sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd o ystyried pryderon nad oes ganddo'r gallu i gyflawni dyheadau Conwy a sefydliadau eraill yn y dyfodol.

Lansiwyd ein Cynllun Dysgu a Datblygu ar gyfer 21/22 ym mis Mai 2021.

A9.5	Gweithredu'r Rhaglen Adnewyddu sy'n cynnwys prosiect Doethwaith 2020. Bydd prosiect Doethwaith 2020 yn defnyddio dull sy'n adeiladu ar y pethau da iawn a oedd gennym ar waith cyn Covid-19, ond sy'n ceisio adeiladu ar arferion gwaith da y bu'n rhaid i ni eu mabwysiadu dros y misoedd diwethaf. Mae hwn yn gyfle go iawn i ail-feddwl sut rydyn ni'n gweithio, ar gyfer beth rydyn ni'n defnyddio gofod swyddfa, a sut gallwn ni gadw ein hallyriadau carbon i'r lleiafswm.	 Gwyrdd

Mae'r Rhaglen Adnewyddu ar waith i roi Canllawiau Llywodraeth Cymru ar waith mewn perthynas â phandemig Covid 19 ac i roi ffyrdd newydd o weithio ar waith sy'n adeiladu ac yn gwella ar weithrediadau cyn-covid. Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud tuag at 'adferiad' o'r pandemig gan fod y rhaglen frechu bron wedi'i chyflwyno'n llawn ac mae symud i mewn i lefel Rhybudd 2 bellach wedi'i gwblhau.

Sefydlwyd y rhaglen gyda 2 brif brosiect oddi tano sef Doethwaith 2020 ac Adnewyddu Gwasanaethau. Mae'r Rhaglen bellach yn cael ei darparu'n llawn gyda'r cyfarfodydd Bwrdd Rhaglen, Byrddau Prosiect, Timau Prosiect, Is-grwpiau Tîm Prosiect a'r Grŵp Ymgynghori Undebau Llafur wedi'u trefnu a'u cynnal ar y sail y cytunwyd arnynt. Mae adroddiadau diweddaru rheolaidd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu priodol hefyd wedi'u hamserlennu yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Am yr ychydig fisoedd diwethaf, mae gwaith y Prosiect Doethwaith 2020 wedi canolbwyntio'n bennaf ar waith y Llif Gwaith Creu Gweledigaeth a'r Llif Gwaith Democratiaeth a Llywodraethu.

Gan fod y Llif Gwaith Creu Gweledigaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu canllawiau ar sut y bydd ein swyddfeydd yn edrych a sut y cânt eu defnyddio yn y dyfodol, mae'r gwaith canlynol wedi'i gyflawni i symud ymlaen â hyn:
i). Datblygu, cylchredeg a chwblhau dadansoddiad o ail arolwg staff ar les staff a'u barn ar fodelau gweithio yn y dyfodol (Mawrth 2021)
ii). Wedi gweithio gyda'r Gwasanaethau i ddadansoddi'r 'tasgau' y maent yn eu cyflawni ac ystyried y rhai y mae'n rhaid eu cwblhau wyneb yn wyneb ac mewn amgylchedd swyddfa.
iii). Ar sail yr arolygon staff, arolygon aelodau etholedig, gweithdai gweledigaeth (a gynhaliwyd Medi 2020) ac adolygiad tasg, datblygwyd Fframwaith Doethwaith 2020 drafft yn rhoi manylion y model gweithredol y bydd y Cyngor yn gweithio iddo yn y dyfodol. Rydym yn ymgysylltu ag undebau llafur ar y drafft ac yna bydd hyn yn cael ei ddwyn trwy'r broses Ddemocrataidd i'w gymeradwyo.
iv). Dechreuwyd datblygu opsiynau ar gyfer defnyddio gofod swyddfa CBSC yn y dyfodol yn seiliedig ar ganlyniadau'r 'adolygiad tasg' a'r model arfaethedig o weithio o fewn y Fframwaith Doethwaith 2020 drafft.

Gan fod y Llif Gwaith Democratiaeth a Llywodraethu yn canolbwyntio ar weithio gydag Aelodau Etholedig i adolygu cyfarfodydd democrataidd a hyfforddiant aelodau, mae'r gwaith canlynol wedi'i gyflawni i symud ymlaen â hyn:
i). Datblygu, cylchredeg a chychwyn dadansoddiad o ail arolwg ar les Aelodau Etholedig a modelau democratiaeth yn y dyfodol (Mawrth 2021)
ii). Parhawyd i weithio gyda'r darparwyr sain a gweddarlledu i ddod o hyd i ddatrysiad cyfarfod hybrid a fydd yn gweithio i'r Cyngor - Mae angen i'r camerâu ac awtomeiddio'r camerâu newid darparwr i, gobeithio, symleiddio'r porthiant i'r llif byw a'r datrysiad gweddarlledu.

9.2. Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cod y Mesurydd	Teitl y Mesurydd	Gwirioneddol 18/19	Targed 19/20	Gwirioneddol 19/20	Targed 20/21	Perfformiad COG
M9.4a	% y staff sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr atebol	Amh.	Dim Targed	Amh.	Dim Targed	Amh.
Ni fu unrhyw arolwg ers 2018, fodd bynnag, bu ymgysylltiad helaeth â staff swyddfa trwy'r arolwg Doethwaith 2020 o staff swyddfa.						
M9.4b	% y staff sy'n teimlo eu bod yn cael yr hyfforddiant cywir i wneud eu gwaith	Amh.	Dim Targed	Amh.	Dim Targed	Amh.
Ni fu unrhyw arolwg ers 2018, fodd bynnag, bu ymgysylltiad helaeth â staff swyddfa trwy'r arolwg Doethwaith 2020 o staff swyddfa.						
M9.4c	% y staff sy'n teimlo bod Conwy yn cymryd y gwaith o ddatblygu ei weithlu o ddifrif	Amh.	Dim Targed	Amh.	Dim Targed	Amh.
Ni fu unrhyw arolwg ers 2018, fodd bynnag, bu ymgysylltiad helaeth â staff swyddfa trwy'r arolwg Doethwaith 2020 o staff swyddfa.						
M9.4d	% y staff sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth ymgymryd â rhannau anodd eu swyddi	Amh.	Dim Targed	Amh.	Dim Targed	Amh.
Ni fu unrhyw arolwg ers 2018, fodd bynnag, bu ymgysylltiad helaeth â staff swyddfa trwy'r arolwg Doethwaith 2020 o staff swyddfa.						
M9.4e	% gweithwyr sy'n cwblhau'r cyflwyniad corfforaethol o fewn yr amser priodol.		Dim Targed	41.50	Dim Targed	Amh.
Mae gostyngiad yn y cyfraddau cwblhau yr ydym yn ymchwilio iddynt ar hyn o bryd. Er bod yn rhaid stopio gwneud y Cyflwyniad Corfforaethol wyneb yn wyneb, mae dechreuwyr newydd wedi cael e-bost ac adnoddau i'w croesawu sydd wedi'u cofnodi ar iTrent.						
M9.6	Nifer y tudalennau a argraffwyd gan CBS Conwy yn y cyfnod	7,737,267	Dim Targed	1,926,761	Amh.	Amh.
Yn 2020-21 gwnaethom argraffu (a chopïo) 1,926,761 o dudalennau (du a gwyn a lliw) sy'n ostyngiad sylweddol o'r 7.7 miliwn ar gyfer 2019-20. Gwnaethom uwchraddio meddalwedd yn gynnar yn 2021 felly dim ond hyd at 31/12/20 y mae data ar gael.						
M9.6b	Milltiroedd staff a dalwyd	Amh.	Dim Targed	231,358.24	Dim Targed	Amh.
Bu gostyngiad sylweddol yn y milltiroedd a deithiwyd a chostau milltiroedd a hawliwyd o 2019/20 gyda 965,922 yn llai o filltiroedd wedi'u teithio yn 2020/21 ac arbediad o £425,226.						
M9.6c	Cyngor Conwy - Cyfanswm y diwrnodau gwaith/shift fesul FTE a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch	10.43	Dim Targed	7.94	Dim Targed	Amh.
Dyma'r ffigur isaf a gofnodwyd erioed ar gyfer y Cyngor hwn. Y ffigur diwedd blwyddyn ar gyfer 19/20 oedd 10.43 felly gwelliant cyffredinol o 2.49 diwrnod i bob Gweithiwr amser llawn (FTE). Bu gostyngiad o 7,927 diwrnod yn y dyddiau a gollwyd oherwydd salwch rhwng 19/20 a 20/21, sef oddeutu 23%.						

Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Hunanasesiad Gwirio Siwrnai Lles Cenedlaethau'r Dyfodol – Perchnogi Ein Huchelgais

Rydym yn cymryd risgiau a reolir yn dda, gan estyn allan i sectorau eraill a chydweithio ar gyllid a staffio. Mae gan staff y pŵer i weithio ar draws sectorau a dylanwadu ar newid.

Mae ein hymateb cyflym i reolaethau covid a'n gallu i ddatblygu gwasanaethau ar-lein mor gyflym yn ganlyniad i sgiliau ac ymrwymiad ein staff a'r sylfeini yr oeddem wedi'u gosod i foderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio ers 2017. Mae ein trefniadau yn y dyfodol ar gyfer model hybrid posibl o weithio yn dal i gael eu cwblhau, ond mae'r ffordd hon o weithio dros y 18 mis diwethaf wedi dangos ein bod yn Awdurdod Lleol gwydn a dyfeisgar. Mae ein hymateb Covid wedi dangos bod gennym drefniadau cydweithredol da. Mae ein cynllun dysgu a datblygu wedi'i addasu i uwchsgilio staff ar weithio o bell fel ein bod ni'n dysgu ffyrdd newydd o gefnogi ein staff a chynnal gwytnwch staff.

Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y nodau lles?

Ar draws pob maes gwaith, byddwn yn sicrhau ein bod yn anelu at ddiwallu anghenion y presennol heb beryglu cenedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn ymdrechu i wneud y penderfyniadau gorau y gallwn yng ngoleuni'r cyfyngiadau ariannol sy'n ein hwynebu.

Mae'r canlyniad hwn yn cefnogi'r nodau lles ar gyfer cymunedau cydlynol, Cymru gydnerth, Cymru gyfartal, Cymru iach a Chymru lewyrchus.

Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae staff wedi gorfod gweithio'n hynod o galed yn ystod yr ymateb i'r pandemig, ac mae capasiti a'r gallu i recriwtio wedi dod yn her. Rydym yn cyrchu mecanweithiau cymorth newydd ac yn monitro llesiant er mwyn sicrhau ein bod yn osgoi 'llosgi allan'. Mae gostyngiadau cyllideb o flwyddyn i flwyddyn yn parhau i fod yn her sylweddol. Byddwn yn parhau i chwilio am fwy o arbedion a ffyrdd modern o weithio sy'n diwallu anghenion pobl. Byddwn yn defnyddio'r Rhaglen Adnewyddu ac ysgrifennu Cynllun Corfforaethol newydd i sicrhau ein bod yn cynyddu agweddau cadarnhaol newidiadau ffordd o fyw Covid i'r eithaf ac yn canolbwyntio ar adnewyddiad cadarnhaol a 'gwyrdd'.

6. Adroddiadau Rheoleiddwyr

Mae Archwilio Cymru yn gweithio i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol fel corff gwarchod y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bob blwyddyn, mae gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio cynlluniau gwelliant a threfniadau adrodd cynghorau, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru, ac asesu a fydd pob awdurdod yn bodloni dyletswyddau statudol i wella'n barhaus. Mae'r canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyflwynwyd y Crynodeb Archwilio Blynyddol 2020 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'i gyhoeddi ym mis Chwefror 2020

Mae'r adroddiadau manwl wedi'u cyhoeddi ar wefan Archwilio Cymru, sydd ar gael yma: Archwilio Cymru

Pan fydd adroddiadau wedi'u cyhoeddi, mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu llunio er mwyn rhoi'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella ar waith. Cânt eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd hefyd yn monitro cynnydd i weithredu'r argymhellion a neu'r cynigion ar gyfer gwelliant.

Gallwch ddod o hyd i bapurau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yma: Papurau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Mae **Archwilio Cymru** yn arolygu perfformiad pob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae adroddiadau archwilio cenedlaethol a rhai am gynghorau penodol i'w gweld ar: https://archwilio.cymru/cy

Estyn – arolygon ysgolion – gellir gweld pob adroddiad am ysgolion Conwy yma: Estyn inspections

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) – Arolygiadau ac adroddiadau

7. Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus

Er mwyn asesu a chymharu pa mor dda rydym ni'n gwneud ar draws Cymru, mae gan CLlLC nifer o fesuryddion perfformiad sy'n cynnwys meysydd polisi allweddol. Mae Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus yn cynnwys set fechan o ddangosyddion sy'n "canolbwyntio ar y canlyniad". Maent yn adlewyrchu'r agweddau hynny ar waith awdurdodau lleol y mae awdurdodau'n cytuno yw'r pwysicaf o ran atebolrwydd i'r cyhoedd. Er enghraifft, ailgylchu, cyrhaeddiad addysgol, datblygu cynaliadwy, ayyb. Cesglir gwybodaeth ac adroddir am yr wybodaeth yma'n genedlaethol, ei dilysu a'i chyhoeddi'n flynyddol. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'n perfformiad yn erbyn y mesuryddion cenedlaethol hyn. Esbonnir yr allwedd a ddefnyddir yn y golofn 'Dadansoddiad o berfformiad' isod

O'i gymharu â'r targed a osodwyd:	
Cyflawnwyd y targed	
Oddi mewn i'r goddefiant er mwyn gweithio tuag at gyflawni'r targed	
Heb gyflawni'r targed ac yn is na'r lefel sy'n cael ei goddef	
Ni osodwyd targed	Amh.

Ni chasglodd Llywodraeth Cymru unrhyw MAC yn 2019-2020 oherwydd covid, ac ar gyfer 2020-21 mae wedi gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno lle bo hynny'n bosibl yn unig. Ni fyddant yn cyhoeddi gwybodaeth meincnod.

Teitl y Mesurydd	Gwirioneddol 18/19	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Targed 20/21	COG Perfformiad
Gwasanaeth Datblygu Cymunedol					
(CDS) (MAC/041) % y cleientiaid NERS sydd wedi cwblhau'r rhaglen ymarfer corff	57.96	Dim data	Dim data	Dim Targed	Amh.
Cafodd y cynllun atgyfeirio ei atal gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 19 Mawrth 2020 felly nid oes unrhyw ddata ar gyfer 20/21.					
(CDS) (MAC/042) % y cleientiaid NERS sydd wedi gweld gwelliannau yn eu hiechyd ar ôl cwblhau'r rhaglen ymarfer corff	64.70	Dim data	Dim data	Dim Targed	Amh.
Cafodd y cynllun atgyfeirio ei atal gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 19 Mawrth 2020 felly nid oes unrhyw ddata ar gyfer 20/21.					
(CDS) LCS002 (MAC/017) Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yn yr Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o	10095.26	10899.21	1263.98	Dim Targed	Amh.

boblogaeth, lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol					
Oherwydd pandemig Covid, effeithiwyd ar nifer yr ymweliadau yn fawr oherwydd cau canolfannau hamdden. Mae'r canlyniad yn dangos presenoldeb am y ddau fis pan gododd y cyfyngiadau.					
(CORP) (M7.1a) (CDS) (MAC/040) % y Dangosyddion Ansawdd (gyda thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgell	87.50	Dim data	50.00	Dim Targed	Amh.
Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori, oherwydd y pandemig y dylai awdurdodau adrodd eu canlyniad ar nifer gyfyngedig o ddangosyddion. Nid yw'r rhain yn cael eu gosod yn erbyn targedau ar gyfer 2020-2021. Byddai gan 4 o'r 6 dangosyddion hyn fel arfer dargedau wedi gosod, o'r 4 hyn, byddai Conwy yn cwrdd â 2 yn llawn (Lleoliad Pwyntiau Gwasanaeth a deunydd Cymraeg a brynnir). Nid yw'r gwasanaeth yn cwrdd â'r lefel briodol o Ddeunydd Darllen ac mae'n cwrdd yn rhannol â'r gofynion Staffio [mae gan hyn 3 rhan gyfansoddol]. Nid yw Conwy yn cwrdd â'r hyn sy'n cyfateb i amser llawn (FTE) na'r staff â chymwysterau proffesiynol y pen, ac mae ganddo reolwr gweithredol dynodedig â chymhwyster proffesiynol.					
Adnoddau Dynol Corfforaethol					
(CHR) CHR/002A - (MAC/001) (M9.6c) Cyfanswm Cyngor Conwy - Nifer y dyddiau gwaith/ sifftiau fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch	9.98	4.76	13.10	Dim Targed	Amh.
Ebr 20 – Maw 21					
Gwasanaeth yr Economi a Diwylliant					
(CDS) LCL001N Nifer yr ymweliadau â Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn	385688.00	200534.00	2220.00	Dim Targed	Amh.
Hefyd casglwyd 3018 o fagiau Galw a Chasglu. Roedd y gwasanaeth ar gau ar gyfer ymweliadau tan 29 Mawrth, cynhaliwyd y Gwasanaeth Galw a Chasglu a Llyfrgell Gartref trwy gydol y cyfnod hwn.					
(CORP) (M7.1a) (CDS) (MAC/040) % y Dangosyddion Ansawdd (gyda thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgell	87.50	Dim data	50.00	Dim Targed	Amh.
Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori, oherwydd y pandemig y dylai awdurdodau adrodd eu canlyniad ar nifer gyfyngedig o ddangosyddion. Nid yw'r rhain yn cael eu gosod yn erbyn targedau ar gyfer 2020-2021. Byddai gan 4 o'r 6 dangosyddion hyn fel arfer dargedau wedi gosod, o'r 4 hyn, byddai Conwy yn cwrdd â 2 yn llawn (Lleoliad Pwyntiau Gwasanaeth a deunydd Cymraeg a brynnir). Nid yw'r gwasanaeth yn cwrdd â'r lefel briodol o Ddeunydd Darllen ac mae'n cwrdd yn rhannol â'r gofynion Staffio [mae gan hyn 3 rhan gyfansoddol]. Nid yw Conwy yn cwrdd â'r hyn sy'n cyfateb i amser llawn (FTE) na'r staff â chymwysterau proffesiynol y pen, ac mae ganddo reolwr gweithredol dynodedig â chymhwyster proffesiynol.					

Addysg					
(CORP) (M1.1g) (EDU) LPI_027 - (MAC/046) Canran y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET)	0.90	1.40	1.60	Dim Targed	Amh.
Nid oedd gan 16 o bobl ifanc gyrchfan hysbys felly fe'u cofnodwyd fel NEET, ond mae'n bosibl bod y pandemig wedi effeithio ar gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn ystod 2020.					
(CORP) (M1.1h) (EDU) (MAC/032) Sgôr cyfartalog wedi'i gapio 9 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 11	342.00	349.40	Dim data	Dim Targed	Amh.
Nid yw data Blwyddyn Academaidd 19/20 ar gael oherwydd canslo arholiadau o ganlyniad i Covid 19.					
(EDU) (MAC/033) Canran y disgyblion a aseswyd yn Gymraeg ar ddiwedd y cyfnod Sylfaen	23.11	24.43	Dim data	Dim Targed	Amh.
Cafodd casglu ffurflenni statudol Asesiad Athrawon Blwyddyn Academaidd 2019/20 ei ganslo oherwydd Covid-19					
(EDU) 016a (MAC/007) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	94.64	94.68	Dim data	Dim Targed	Amh.
Blwyddyn academaidd 19/20 - ni chasglodd Llywodraeth Cymru'r data hwn oherwydd Covid 19					
(EDU) 016b (MAC/008) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	94.07	93.94	Dim data	Dim Targed	Amh.
Blwyddyn academaidd 19/20 - ni chasglodd Llywodraeth Cymru'r data hwn oherwydd Covid 19					
(EDU) 4.08 - (MAC/034) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio Cymraeg (iaith gyntaf)	19.85	Dim data	Dim data	Dim Targed	Amh.
Canslwyd arholiadau TGAU Blwyddyn Academaidd 2019/20 oherwydd Covid-19 a'u disodli gan Raddau a Aseswyd gan Ganolfan heb unrhyw ddata agregedig i'w gyhoeddi o'r rhain neu ei ddefnyddio mewn cymhariaeth â data'r flwyddyn flaenorol.					
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau					
(CORP) (M6.3a) (ERF) MAC/030 - Canran y gwastraff trefol a ailgylchwyd, a ailddefnyddiwyd neu a gompostiwyd	64.86	68.70	70.52	68.00	Gwyrdd
Targed wedi'i gyflawni Yn ystod 2020/21 casglwyd mwy na 53,500 tunnell o wastraff gan drigolion Conwy, ac ailddefnyddiwyd, ailgylchwyd neu compostiwyd 70.5% ohonynt. Mae hyn yn gynnydd o 2% ers y flwyddyn flaenorol a dyma'r canlyniad uchaf a gofnodwyd ar gyfer y mesur hwn.					

(ERF) MAC/010 - Canran o strydoedd sydd yn lân	98.88	97.77	100.00	96.00	Gwyrdd
Targed wedi'i gyflawni. Yn ystod 2020/21 archwiliwyd cyfanswm o 152 o strydoedd, a graddiwyd pob un ohonynt yn B neu'n uwch. Ni chynhaliodd Cadwch Gymru'n Daclus unrhyw archwiliadau yn ystod 2020/21, mewn ymateb i bandemig Covid-19 a chyfyngiadau cysylltiedig ar deithio. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yng nghyfanswm y strydoedd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn o gymharu â blynyddoedd blaenorol.					
(ERF) MAC/020 - Canran ffyrdd A mewn cyflwr gwael	3.90	4.32	3.90	4.00	Gwyrdd
Targed wedi'i gyflawni - Mae buddsoddiad wedi'i dargedu o gyllid cyfalaf, gan gynnwys Grant Adnewyddu Ffyrdd LlC, gan ddefnyddio methodoleg ar sail risg wedi cynorthwyo i sicrhau gwelliant yng nghyflwr cyffredinol y ffyrdd.					
(ERF) MAC/021 - Canran ffyrdd B mewn cyflwr gwael	5.79	5.94	4.75	7.50	Gwyrd
Targed wedi'i gyflawni - Mae buddsoddiad wedi'i dargedu o gyllid cyfalaf, gan gynnwys Grant Adnewyddu Ffyrdd LlC, gan ddefnyddio methodoleg ar sail risg wedi cynorthwyo i sicrhau gwelliant yng nghyflwr cyffredinol y ffyrdd.					
(ERF) MAC/022 - Canran ffyrdd C mewn cyflwr gwael	15.37	15.46	15.09	17.00	Gwyrdd
Targed wedi'i gyflawni - Mae buddsoddiad wedi'i dargedu o gyllid cyfalaf, gan gynnwys Grant Adnewyddu Ffyrdd LlC, gan ddefnyddio methodoleg ar sail risg wedi cynorthwyo i sicrhau gwelliant yng nghyflwr cyffredinol y ffyrdd.					
(ERF) MAC/035 - Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gymerwyd i glirio tipio anghyfreithlon	1.41	1.78	1.63	5.00	Gwyrdd
Targed wedi'i gyflawni - Yn ystod 2020/21 cliriwyd cyfanswm o 1,675 o ddigwyddiadau o dipio anghyfreithlon, sy'n gynnydd o 68% (680 o ddigwyddiadau) o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r alldro o 1.6 diwrnod yn parhau i fod yn gyson â'r flwyddyn flaenorol.					
(ERF) MAC/043 Cilogramau o wastraff gweddilliol fesul unigolyn	129.60	119.39	133.46	125.00	Coch
Mae effaith llawer o bobl yn y cartref oherwydd pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar faint o wastraff gweddilliol a gynhyrchir. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd gwastraff a gynhyrchwyd yn ystod y diwrnod gwaith (pan arferai hynny fod wedi cael ei gynhyrchu yn y gweithle) a hefyd oherwydd bod preswylwyr yn treulio amser ychwanegol gartref, yn cael mwy o amser i ymgymryd â 'chlirio'.					
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai					

(REG) (MAC/012) % yr achosion lle cafodd digartrefedd ei atal (fel y diffiniwyd gan Adran 66 Deddf Tai (Cymru) 2014)	69.97	71.87	Dim data	Dim Targed	Amh.
Nid ydym wedi gallu cael y nifer hwn eto. Oedi ar gau achosion oherwydd pwysau covid felly ni fyddai'r nifer yn gywir.					
(REG) (MAC/013) (PSR004 gynt): % yr anheddau sector preifat a fu'n wag am fwy na 6 mis sydd wedi'u dychwelyd i ddefnydd preswyl yn ystod y flwyddyn drwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol	1.56	2.02	Dim data	Dim Targed	Amh.
(REG) (MAC/015) (PSR002 gynt): Diwrnodau a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl	130.75	135.86	202.85	Dim Targed	Amh.
Mae'r amser cyfartalog i gyflawni addasiadau wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ariannol hon oherwydd pandemig Covid 19. Roedd mynediad i gartrefi cleientiaid wedi'i gyfyngu i swyddogion a chontractwyr allu ymweld. Yn ogystal, mae llawer o gleientiaid hefyd wedi gofyn am atal eu haddasiadau nes bod cyfraddau heintiau Covid 19 wedi gwella a brechiadau wedi'u cwblhau.					
(REG) (MAC/018) % o'r holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd ar amser	89.83	91.33	86.77	Dim Targed	Amh.
(REG) (MAC/019) (PLA003 gynt) % yr apeliadau a benderfynwyd a oedd yn cadarnhau penderfyniad yr awdurdod mewn perthynas â phenderfyniadau am geisiadau cynllunio a rhybuddion gorfodi	56.25	41.67	60.87	Dim Targed	Amh.
(REG) (MAC/023) (PPN009 gynt) % y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd	93.61	Dim data	Dim data	Dim Targed	Amh.
Gwasanaethau Cymdeithasol					
(SC) (CS) (MAC/026) Gofalwyr yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i barhau â'u rôl ofalu	62.18	Dim data	Dim data	Dim Targed	Amh.
Ni chwblhawyd Arolwg Dinasyddion ar gyfer 20/21, ac nid yw'r mesur hwn ar gael					
(SS) PMC24 (MAC/028) Y ganran o asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn y terfynau amser statudol	100.00	97.14	100.00	Dim Targed	Amh.
Ffigur hyd at 23/11/20					

8. Cymerwch Ran

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i wella ein gwasanaethau ac mae'n bwysig ein bod ni'n gwrando ar yr hyn sydd gennych chi, y gymuned, i'w ddweud. Mae croeso i chi awgrymu gwelliant neu wneud sylw i'r Cyngor ei ystyried unrhyw adeg o'r flwyddyn, felly rhowch wybod i ni. Gallwch ymuno â Sgwrs y Sir i rannu eich safbwyntiau a'ch syniadau ynglŷn â'r Sir neu eich ardal leol.

www.conwy.gov.uk/Sgwrs-y-Sir

www.facebook.com/sgwrsconwyconvo/

@sgwrsconwyconvo

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Conwy
LL30 9GN

sgwrsysir@conwy.gov.uk

01492 574000
Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar y clyw neu ar y lleferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor trwy ddeialu **18001** cyn y rhif y maent ei angen.

Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan ddefnyddio cyfieithydd Iaith Arwyddion drwy wasanaeth InterpretersLive! a ddarperir gan Sign Solutions – ewch i https://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Contact-Us/Sign.aspx

Rydym eisiau clywed barn Pobl Ifanc
Nid oedolion yn unig sy'n gallu dweud eu dweud. Ein pobl ifanc yw'r genhedlaeth nesaf ac rydym am glywed eich barn chi hefyd! Mae yna lawer o ffyrdd y gallwch ddweud eich dweud yng Nghonwy. Mae pob un o'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghonwy'n rhoi cyfle i chi ddweud eich dweud. Yn benodol, mae Cyngor Ieuenctid Conwy yn rhoi llais a dewis i chi o ran penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi. Nhw yw eich cynrychiolwyr, ac maent yn gweithio ar brosiectau ac yn gallu lleisio barn ar bethau sy'n gwneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc yng Nghonwy.

Os hoffech chi gymryd rhan, ewch i dudalen gwe Facebook y Cyngor Ieuenctid

Caiff yr Adroddiad Blynyddol hwn, y Cynllun Corfforaethol, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru oll eu cyhoeddi ar ein gwefan yn Gymraeg ac yn Saesneg.www.conwy.gov.uk/corporateplan neu www.conwy.gov.uk/accountability.

Mae modd i chi hefyd weld yr Adroddiadau gan ddefnyddio un o'r cyfrifiaduron sydd at ddefnydd y cyhoedd, yn rhad ac am ddim, ym mhob Llyfrgell yn y Sir ac wrth y dderbynfa ym Modlondeb ac wrth y dderbynfa yn y Swyddfeydd Dinesig.

Gellir gwneud cais am gopi papur drwy ffonio 01492 574000. **Rydym yn hapus i ddarparu'r ddogfen hon mewn print bras, CD sain, braille ac Iaith Arwyddion Prydain**

9. Lle i gael rhagor o wybodaeth am eich Cyngor

- Yn Ddigidol - Mae ApConwy yn darparu'r newyddion diweddaraf gan y Cyngor ac mae'n cynnwys gwybodaeth am wasanaethau lleol fel cyhoeddiadau ysgol, swyddi gwag a dyddiau casglu gwastraff.

  I roi cynnig ar ein ap, y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw lawrlwytho ApConwy o'r AppStore, PlayStore neu Windows Store.

- Ein gwefan **www.conwy.gov.uk**

- Gwefannau Cymdeithasol - Gallwch ein dilyn ar Twitter ac ar Facebook

- **Cynllun Corfforaethol 2017 - 2022** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Adroddiadau Perfformiad chwe-misol **www.conwy.gov.uk/corporateplan**

- Mae **Uned Ddata Llywodraeth Leol** yn casglu, cyflwyno ac yn cymharu data'r Fframwaith Mesur Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer pob cyngor yng Nghymru:

  www.dataunitwales.gov.uk

  www.mylocalcouncil.info